Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored

Llawlyfr Ysgolion Partner

Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Cymru

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

Cynnwys	Tudalen
1. Rhagair	1
2. Croeso i Bartneriaeth AGA Y Brifysgol Agored	2
3. Gweithio mewn Partneriaeth a Manylion Cyswllt	3
4. Ein Gweledigaeth ar gyfer AGA: Dod yn Ysgol Bartner	4
Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth	5
5. Trosolwg o Lwybrau TAR Y Brifysgol Agored	6
6. Strwythur y Rhaglen	7
Y Llwybr Rhan-Amser	8
Y Llwybr Cyflogedig	9
7. Ein Gweledigaeth ar gyfer Dysgu Athrawon dan Hyfforddiant	10
8. Sut mae Athrawon Dan Hyfforddiant yn Dysgu	12
9. Rolau a Chyfrifoldebau Partneriaid	14
Cydlynydd Ysgol	15
Mentor	16
10. Darpariaeth mewn Ysgolion	17
11. Datblygu'r Gymraeg	19
12. Y Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr	20
13. Dylunio Dysgu yn yr Ysgol	21
14. Ymarfer Dysgu	22
Y Llwybr Rhan-Amser – Trosolwg o Amserlennu	23
Y Llwybr Cyflogedig – Trosolwg o Amserlennu	24
15. Camau Dysgu – Pwy sy'n Gwneud Beth	
TAR1	26
TAR2	30
TAR3	34
16. Fframwaith Cynnydd ac Asesu	37
17. Cymorth ac Adnoddau Pellach	41
18. Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag AGA	42

1. Rhagair



Dr Sarah Stewart, Cyfarwyddwr TAR



Mr Richard Hatwood, Pennaeth a Chadeirydd y Pwyllgor Partneriaeth

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r Llawlyfr Partneriaid diwygiedig hwn ar gyfer partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) Y Brifysgol Agored.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi datblygu'n gyflym mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, disgwyliadau rheoleiddiol ac anghenion newidiol y system addysg yng Nghymru. Er bod hyn wedi cefnogi arloesedd ac ymatebolrwydd, rydym yn cydnabod bod canllawiau wedi mynd yn rhy fanwl ac, ar adegau, yn anodd i'w deall yng nghyd-destunau ysgolion prysur.

Rydym wedi gwrando ar adborth partneriaid, sydd wedi tynnu sylw at yr angen am ganllawiau cliriach a mwy hygyrch a llai o ddyblygu, er mwyn iddynt allu treulio mwy o amser yn canolbwyntio ar gefnogi athrawon dan hyfforddiant.

Mae'r llawlyfr hwn yn ymateb i'r adborth hwnnw drwy ddarparu canllaw cyfeirio ymarferol symlach, wedi'i ategu gan sesiynau briffio byw, hyfforddiant a sesiynau galw heibio wythnosol. Bwriedir iddo helpu i sicrhau eglurder a chysondeb gan leihau baich gweinyddol diangen ar yr un pryd.

Un datblygiad allweddol eleni yw cyflwyno'r fframwaith cynnydd, sy'n darparu strwythur a rennir ar gyfer deall sut mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu dros amser, gan ddisodli ein fframwaith asesu ymarfer dysgu blaenorol. Mae'n sicrhau mwy o gysondeb ar draws y bartneriaeth ac yn cefnogi deialog broffesiynol fwy penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch cynnydd a datblygiad, gan adlewyrchu model diwygiedig Safonau Proffesiynol yng Nghymru.

Mae'r dull hwn o weithredu yn adlewyrchu ymrwymiad a rennir i wella ansawdd, cryfhau darpariaeth fentora a chymorth yn yr ysgol a sicrhau bod disgwyliadau'n glir ac yn gymesur a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob rhan o'r bartneriaeth.

Byddwn yn parhau i fireinio'r model hwn mewn cydweithrediad â phartneriaid er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ymatebol ac yn gynaliadwy a chanolbwyntio ar ddatblygu athrawon o ansawdd uchel.

S Stewart

R Hatwood

2. Croeso i Bartneriaeth AGA Y Brifysgol Agored



Mae'r canllaw hwn yn helpu Ysgolion Partner i gefnogi athrawon dan hyfforddiant cyflogedig a rhan-amser, gan amlinellu rolau allweddol, cyfrifoldebau a gofynion y rhaglen.

Mae Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn darparu'r unig raglen TAR i Gymru gyfan. Gan gyfuno dysgu ar-lein naill ai â llwybr cyflogedig sy'n seiliedig ar gyflogaeth neu lwybr rhan-amser wedi'i hunanariannu, rydym yn gwneud addysgu'n fwy hygyrch ledled Cymru.



Nifer Myfyrwyr TAR Partneriaeth y BA

Nifer Ysgolion TAR Partneriaeth y BA

Ionawr 2026

Ffigur 1: Data partneriaeth

Partneriaeth Gydweithredol Gref

Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar gydweithio'n agos â chwe ysgol Bartner Arweiniol, sy'n helpu i lywio'r rhaglen, a rhwydwaith ehangach o tua 250 o ysgolion Partner sy'n darparu dysgu o ansawdd uchel yn yr ysgol.

Mae ein hysgolion yn amrywio o ysgolion mawr yng nghanol dinasoedd ac ysgolion bach gwledig i ysgolion arbennig ac ysgolion ffydd, sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau a'n hathrawon dan hyfforddiant.

3. Dull Partneriaeth o Ddatblygu Athrawon y Dyfodol
Ffordd Symlach o Gydweithio

Gwyddom fod cefnogi athrawon dan hyfforddiant yn golygu cydbwyso gofynion allweddol y rhaglen ochr yn ochr â'ch rôl o ddydd i ddydd. Er mwyn gwneud hyn yn haws, rydym wedi symleiddio ein canllawiau ac wedi symud tuag at gefnogaeth fyw, ymatebol drwy sesiynau briffio a sesiynau galw heibio wythnosol.

Er bod y llawlyfr hwn yn amlinellu disgwyliadau allweddol, mae'n well mynd i'r afael â llawer o gwestiynau drwy drafod - gan eich helpu i ymateb i anghenion myfyrwyr ar draws ein llwybrau rhan-amser a chyflogedig hyblyg.

Fel darparwr ar-lein, efallai na fyddwn ni bob amser yn bresennol yn gorfforol, ond nid yw pellter yn golygu bod ymhell i ffwrdd.

1. Sesiynau Briffio a Gwybodaeth Allweddol
- Cymerwch ran yn eich sesiwn friffio flynyddol ar-lein (a gynigir ddwywaith)
- Cwblhewch hyfforddiant rhagarweiniol ar gyfer eich rôl/rolau (bob 2 flynedd)
- Defnyddiwch eich cynlluniwr sy'n seiliedig ar rolau ar gyfer dyddiadau a gweithgareddau allweddol

2. Sesiynau Galw Heibio Wythnosol
Bob dydd Llun, 3.30pm (Teams)
- Mae dolen ar gael ar wefan y Bartneriaeth
- Ddim yn gallu bod yn bresennol? Trefnwch amser arall gydag aelod o'n tîm
  - Angela.Thomas@open.ac.uk neu Catharine.Bleasdale@open.ac.uk
- Mae rhai sesiynau'n cynnwys themâu penodol (gweler y cylchlythyr)

3. Cymorth sy'n Benodol i'r Myfyriwr
- Cysylltwch â **Thiwtor Cwricwlwm** eich myfyriwr
- Bydd yn cyflwyno ei hun ar ddechrau'r tymor drwy e-bost

4. Ymholiadau Gweithredol
- Lleoliadau, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, cyllid:
- **TAR-Cymru@open.ac.uk**

Cydweithio

Mae defnyddio'r llwybr hwn yn helpu i sicrhau canllawiau cyson, llwyth gwaith ysgafnach a chysylltiad cryfach rhwng pob rhan o'r bartneriaeth.

Cymorth Ychwanegol

Efallai y bydd adegau pan fydd angen cymorth ychwanegol ar athrawon dan hyfforddiant, naill ai ar gyfer llesiant neu ar gyfer pryderon proffesiynol a phryderon sy'n ymwneud ag ymarfer.

Ar gyfer cymorth llesiant, cyfeiriwch athrawon dan hyfforddiant at **wasanaethau Iechyd Meddwl a Llesiant Y Brifysgol Agored**.

Ar gyfer pryderon ynghylch cynnydd, cysylltwch â'r **Tiwtor Cwricwlwm**, a fydd yn gweithio gyda chi i roi'r **Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr** ar waith a sicrhau bod cymorth priodol ar gael.

4. Ein Gweledigaeth: Llywio Dyfodol Addysgu yng Nghymru

Drwy ein **llwybrau arloesol**, rydym yn ymrwymedig i wneud y canlynol:

✓ Ehangu mynediad at addysgu
✓ Amrywiaethu'r gweithlu
✓ Recriwtio mewn pynciau â blaenoriaeth

Mae cynhwysiant cymdeithasol, cyfiawnder a chydraddoldeb wrth wraidd ein gweledigaeth. Ein nod yw datblygu gweithwyr proffesiynol o ansawdd uchel sy'n barod ar gyfer dysgu gydol oes, arloesi addysgol, ac effaith barhaol ar ysgolion, cymunedau a disgyblion – gan greu gweithlu addysgu cryfach a mwy cynhwysol i Gymru. Cewch glywed yn uniongyrchol gan ein Partneriaid yma.

"Ein gweledigaeth yw gweithio mewn partneriaeth i ddileu rhwystrau i gyfranogiad a darparu llwybr hyblyg i ddatblygu athrawon rhagorol y gall fod yn anoddach iddynt gael mynediad i lwybrau traddodiadol.Wrth wneud hynny, ein nod yw cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a chymunedau ledled Cymru."

Pam y dylen ni ddod yn ysgol bartner?



Mae Ysgolion Partner yn chwarae rôl allweddol wrth greu'r genhedlaeth nesaf o athrawon. Drwy groesawu athrawon dan hyfforddiant, gall eich ysgol wneud y canlynol:

✅ **Datblygu athrawon medrus** – Ewch ati i fentora myfyrwyr sy'n barod i gael effaith barhaol.

✅ **Gwella datblygiad staff** – Manteisiwch ar gyfleoedd ar gyfer DPP a dysgu proffesiynol.

✅ **Cefnogi recriwtio** – Cysylltwch â darpar gyflogeion.

✅ **Derbyn cymorth ariannol** – Mae cyllid yn helpu i gynnal clystyrau myfyrwyr, gan wella'r profiad i fyfyrwyr ac ysgolion.

YMUNWCH Â NI!

- **Mynegwch Ddiddordeb –** Cysylltwch â TAR-Cymru@open.ac.uk i drafod
- **Cyflwynwch Gais –** Bodlonwch y meini prawf a chwblhewch y ffurflen: GWNEWCH GAIS NAWR

Dechreuwch Arni

📌 **Cadarnhewch Ymrwymiadau** – Mae'r pennaeth yn llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan gydnabod rôl, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau'r ysgol yn ffurfiol.

📌 **Penodwch Gydlynydd Ysgol –** Eich prif gyswllt, sy'n gyfrifol am arwain AGA a sefydlu trefniadau mentora effeithiol iawn yn eich ysgol.

📌 **Cwblhewch Gamau Gweithredu'r Pecyn Croeso –** Sicrhewch fod gan staff fynediad hollbwysig at systemau a gwybodaeth a'u bod yn cael hyfforddiant gorfodol.

*"Mae bod yn Ysgol Bartner yn fwy na statws yn unig—mae'n ymrwymiad i **ysbrydoli, mentora a datblygu athrawon newydd**."*

Drwy lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth* ffurfiol, mae Ysgolion Partner yn cadarnhau y byddant yn darparu'r canlynol i athrawon dan hyfforddiant:

- Cyfle i gael cymorth a dysgu gan gymheiriaid drwy dderbyn **o leiaf ddau fyfyriwr fesul lleoliad**
- **Sesiynau monitro wythnosol** strwythuredig, wedi'u hamserlennu
- **Profiad mewn ystafell ddosbarth brif ffrwd** am y rhan fwyaf o'u hamser
- **Addysgu ar draws dwy ystod oedran cwricwlwm ddilynol** (sy'n berthnasol i lwybr astudio'r myfyriwr)
- Cyfleoedd i **gael profiad o amrywiaeth eang o ddulliau addysgu ac arsylwi arnynt**, gan feithrin gwybodaeth am eu cyfnod Cynradd neu eu pwnc Uwchradd.
- **Cyflwyniad graddedig** i addysgu (30% → 50% → 75% o'r cyfrifoldeb)
- Cymorth gan staff yr ysgol ar gyfer **Gweithgareddau Ymarfer Dysgu, astudio gwersi**, ac **Ymholiadau Proffesiynol** ar lefel Meistr
- Cyfleoedd i ddatblygu **sgiliau Cymraeg**.
- Amser a chymorth i **fyfyrio'n feirniadol** ar eu hymarfer dysgu eu hunain
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu, gan gynnwys gweithio gyda rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr a chydweithwyr
- ***Ar gyfer athrawon dan hyfforddiant cyflogedig***:
    - 25 diwrnod o amser rhyddhau ym mis Mehefin ym Mlwyddyn 1 i gymryd rhan mewn **ail brofiad ysgol gorfodol**
    - Amser astudio ar-lein **wedi'i neilltuo**

**Mae angen llofnod pennaeth sy'n cadarnhau ymrwymiadau statudol, cytundebol ac ariannol cyn i leoliadau ddechrau. Rhoddir manylion llawn cymhellion ariannol a chyfraniadau mentora'r Brifysgol Agored yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.*



5. Llwybrau Gwahanol... Yr Un Cyrchfan

Mae Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn cynnig dau lwybr arloesol i faes addysgu yng Nghymru, sef: y **llwybr Rhan-amser** a'r **llwybr Cyflogedig.** Mae'r naill a'r llall yn arwain at ddyfarnu **TAR a Statws Athro Cymwysedig (SAC)** ac maent yn cyfuno ymarfer yn yr ysgol, mentora strwythuredig, dysgu ar-lein, ac astudio ar lefel Meistr.

Y gwahaniaeth allweddol rhwng y llwybrau yw'r **ffordd mae athrawon dan hyfforddiant yn cyfuno eu dysgu â phrofiad ysgol neu gyflogaeth**. Mae'r tabl isod yn crynhoi prif nodweddion pob llwybr er mwyn helpu ysgolion i ddeall sut maent yn wahanol i'w gilydd mewn mannau.

Nodwedd	Llwybr Rhan-Amser	Llwybr Cyflogedig
Ar gyfer pwy y mae?	Mae unigolion yn hyfforddi ochr yn ochr ag ymrwymiadau eraill	Hyfforddiant i staff ysgol presennol neu gyflogeion newydd tra byddant yn gweithio
Statws cyflogaeth	Nid ydynt yn cael eu cyflogi gan yr ysgol yn ystod amser ymarfer dysgu	Fe'u cyflogir gan yr ysgol fel rhan o'r rhaglen
Amser yn yr ysgol	Fel arfer **3-5 diwrnod yr wythnos**	Cânt eu hintegreiddio yn amserlen yr ysgol
Cydbwysedd gweithgareddau	Profiad ysgol, astudio ar-lein a dysgu annibynnol (16-20 awr yr wythnos)	Tua 50% o ddyletswyddau cyflogaeth / 50% o astudio ar gyfer TAR ac ymarfer dysgu ym Mlwyddyn 1
Cyfrifoldeb addysgu	Mae'n cynyddu'n raddol trwy brofiad addysgu wedi'i gefnogi ar draws lleoliadau (30% -50%-75%) ac wedi'i goruwchwylio	Mae'n cynyddu'n raddol drwy addysgu strwythuredig a hyd at 70% o addysgu annibynnol ym Mlwyddyn 2
Mentora	Mentora strwythuredig a ddarperir gan yr Ysgol Bartner	Mentora strwythuredig a ddarperir gan yr Ysgol Bartner
Lleoliadau ymarfer dysgu	120 diwrnod yn yr ysgol (25, 35 a 60 diwrnod), fel arfer wedi'i rannu'n 60 diwrnod yn Ysgol A a 60 diwrnod yn Ysgol B. Gellir cwblhau hyd at 25 diwrnod mewn ysgol arbennig.	Ymarfer dysgu yn bennaf yn yr ysgol sy'n eu cyflogi Gellir treulio hyd at 30% o gyfanswm yr amser ymarfer dysgu y tu allan i ddarpariaeth brif ffrwd.
Ail Brofiad Ysgol	Maent yn ymgymryd â lleoliadau mewn o leiaf ddwy ysgol	**Lleoliad 25 diwrnod gorfodol** mewn ysgol arall (ni ellir ei hepgor)
Trefniadau cytundebol	Nid oes angen contract cyflogaeth	**Cytundeb llawnamser ar Bwynt 1 o Raddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyster** o leiaf
Trefniadau ariannol	Mae'r Brifysgol Agored yn talu cyfraniad ariannol tuag at gostau mentora	Cael **grant cyflog** o 50-100% gan Lywodraeth Cymru (nid yw'n cynnwys argostau ac mae'n ddibynnu ar gymhwystra)
Hyd y rhaglen	Canol mis Medi (Blwyddyn 1) – mis Mehefin (Blwyddyn 2)	Canol mis Medi (Blwyddyn 1) – mis Mehefin (Blwyddyn 2)
Deilliant	TAR gyda Statws Athro Cymwysedig	TAR gyda Statws Athro Cymwysedig

6. Strwythur Rhaglen TAR Y Brifysgol Agored
Dwy Flynedd o Ddysgu Proffesiynol

Blwyddyn 1: TAR1 a TAR2 (modiwl Lefel 6 60 credyd)
Gosod Sylfeini

- ✓ **Ffocws**: Arsylwi, cynllunio, cydaddysgu, a dilyniannau byr o wersi.
- ✓ Mae Ymarfer Dysgu yn cynyddu'n raddol o **30–50% (TAR1)** i **40–60% (TAR2)** o amser ymarfer dysgu.
- ✓ Mae myfyrwyr rhan-amser yn cyfuno astudio ar-lein neu leoliadau ag ymrwymiadau eraill; Mae myfyrwyr cyflogedig yn integreiddio astudio ac addysgu o fewn yr amserlen wythnosol.
- ✓ Mae'n cyflwyno **Astudio Gwersi**

Blwyddyn 2: TAR3 (modiwl lefel Meistr 60 credyd)
Meithrin Ymreolaeth

- ✓ **Ffocws**: Addysgu mwy annibynnol ar draws wythnosau wedi'u hamserlennu llawn (**dwysedd addysgu o 70–75%**).
- ✓ Mae **Ymholiad Proffesiynol** (ymchwil ar raddfa fach) yn cysylltu theori ag ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.
- ✓ Mae myfyrwyr yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio, asesu ac arwain profiadau dysgu.

Elfennau'r Modiwl (pob cam)

📘 **6 Uned Astudio Ar-lein â Thema** – archwilio theori a gwybodaeth broffesiynol
💻 **Seminarau Ar-lein Bob Pythefnos** – trafod, myfyrio a chysylltu â thiwtoriaid a chymheiriaid
🖍️ **Aseiniad a Gaiff Ei Farcio gan Diwtor** – cymhwyso dysgu mewn tasgau strwythuredig
🏫 **Ymarfer Dysgu yn yr Ysgol** – profiad graddol, wedi'i gefnogi yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarfer dysgu a dau ymweliad ar-lein gan y Tiwtor Ymarfer
🏁 **Asesiad Diwedd Modiwl** - dangos gwybodaeth a sgiliau proffesiynol

Llwybr	Strwythur	Ymarfer Dysgu	Amser Astudio	Nodiadau
Rhan-amser	2-5 diwrnod yr wythnos yn yr ysgol	60 diwrnod y flwyddyn (gan gynnwys 30 diwrnod bloc ym mlwyddyn 2)	Astudio annibynnol ar-lein	Efallai y bydd angen teithio; cynnydd arafach at ymreolaeth
Cyflogedig	Cyfuniad wythnosol	Cynnydd graddol o 1.5 diwrnod dan oruchwyliaeth i 3.5 diwrnod o addysgu annibynnol	Amser wedi'i neilltuo yn amserlen yr ysgol	Mae'n cydbwyso dyletswyddau cyflogaeth â dysgu TAR; mae'n cynnwys 25 diwrnod o **Ail Brofiad Ysgol**





Llwybr Rhan-Amser

Ar y llwybr Rhan-Amser, mae ymgeiswyr yn gwneud cais yn uniongyrchol i'r rhaglen TAR, tra bod ysgolion yn gwneud cais ar wahân i ddod yn Ysgolion Partner o fewn Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored.

Ar ôl cael eu derbyn ar y rhaglen, mae athrawon dan hyfforddiant yn cwblhau cyfres o leoliadau ysgol fel rhan o'u hymarfer dysgu.

Mae Ysgolion Partner yn cefnogi datblygiad athrawon dan hyfforddiant yn ystod lleoliadau sy'n para 25, 35, neu 60 diwrnod, gan eu mentora a rhoi cyfleoedd iddynt arsylwi, ymarfer a datblygu eu haddysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn cyfuno eu lleoliadau 25 a 35 diwrnod ym Mlwyddyn 1, gan gwblhau 60 diwrnod mewn un ysgol, cyn symud i Ysgol Bartner arall ym Mlwyddyn 2 i gwblhau'r 60 diwrnod sy'n weddill, gan gynnwys lleoliad llawnamser bloc sy'n para 30 diwrnod.

Mae Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn cydlynu trefniadau lleoli ac yn gweithio gyda Chydlynwyr Ysgolion i baru athrawon dan hyfforddiant ag Ysgolion Partner addas.

Mae ysgolion yn cael cyfraniad ariannol tuag at gost mentora a chefnogi athrawon dan hyfforddiant yn ystod cyfnodau ar leoliad.

Mae athrawon dan hyfforddiant yn dilyn rhaglen strwythuredig o fentora, profiad addysgu a Gweithgareddau Ymarfer Dysgu, gan sicrhau bod eu hamser yn yr ysgol yn bwrpasol a'i fod yn cael ei gefnogi'n dda.

Staff Ysgol Presennol

Y llwybr Cyflogedig yw'r llwybr gorau posibl i'r rhai sydd wedi'u cyflogi mewn ysgol, gyda grant cyflog o 50-100% ar gael er mwyn helpu i dalu costau. Dim ond pan nad yw hyn yn ymarferol y dylai ysgolion ystyried y llwybr Rhan-Amser, sydd hefyd yn gofyn am statws Ysgol Bartner, ac ystyried y pwyntiau isod:

Ystyriaethau Allweddol

- Yn ystod ymarfer dysgu, mae'r unigolyn yn bresennol **fel athro dan hyfforddiant yn unig**. Rhaid iddo gael ei oruchwylio ac **ni all** gyflawni dyletswyddau cyflogaeth arferol. Dylai ysgolion ystyried y **goblygiadau cytundebol** gyda'u cyflogai.
- Rhaid i fyfyrwyr ddilyn strwythur y rhaglen Ran-Amser a chwblhau'r holl weithgareddau gofynnol.
- Mae dau leoliad ysgol yn ofyniad statudol ac, felly, rhaid i o leiaf **un lleoliad** gael ei gwblhau mewn ysgol arall.
- Ni dylai athrawon dan hyfforddiant **weithio'n llawnamser ochr yn ochr â'r TAR**, gan fod y rhaglen yn gofyn am tua 16–20 awr o astudio bob wythnos i gefnogi llwyth gwaith iach a lles.
- Os bydd **gwrthdaro buddiannau neu faterion sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd** yn codi, gellir lleoli'r athro dan hyfforddiant mewn Ysgol Bartner arall.

Cefnogi Aelod o Staff (Llwybr Cyflogedig)

Wyddech chi? Gallwn eich helpu i recriwtio staff uwchradd newydd

Gall Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored gefnogi eich prosesau **cynllunio a recriwtio gweithlu** drwy'r llwybr Cyflogedig.

- **Strategaeth hysbysebu** i'ch helpu i recriwtio staff newydd i hyfforddi fel athrawon yn eich ysgol
- **Gwasanaeth paru** sy'n cysylltu ymgeiswyr cymwys ag ysgolion mewn meysydd pwnc lle mae prinder athrawon (uwchradd yn unig)
- Mae **penaethiaid yn cymryd rhan yn y broses gyfweld** ac yn cadarnhau ymgeiswyr llwyddiannus ochr yn ochr â phroses ddethol Y Brifysgol Agored

Cysylltwch â: TAR-Cymru@open.ac.uk

- ✓ Gall ysgolion gymeradwyo cyflogai presennol drwy gwblhau **ffurflen gymeradwyo**.
- ✓ Rhaid i'r cyflogai gwblhau'r **broses recriwtio ar-lein** a bodloni **gofynion mynediad AGA** (cymwysterau TGAU, gradd; Rhaid i ymgeiswyr uwchradd ddangos gwybodaeth gadarn am y pwnc, fel arfer drwy feddu ar radd).
- ✓ Nifer **cyfyngedig** o leoedd sydd ar gael a bydd angen **cystadlu** amdanynt.

Cwblhewch y ffurflen gymeradwyo.

Cyfeiriwch eich cyflogai at y broses gwneud cais.

Unwaith y bydd athro dan hyfforddiant cyflogedig wedi'i gadarnhau, rhaid i'r ysgol wneud y canlynol:

- **Cytuno ar ddyletswyddau** ac amserlen – Blwyddyn 1, cydbwyso dyletswyddau cyflogaeth (~50%) ag astudiaeth TAR (~50%). Blwyddyn 2, amserlen athro heb gymhwyso o 70%.

  Amserlen nodweddiadol ym Mlwyddyn 1:
  - *Cyflogaeth sy'n cynorthwyo addysgu a dysgu (~2.5 diwrnod yr wythnos)*
  - *Profiad addysgu wedi'i gefnogi a Gweithgareddau Ymarfer Dysgu (~1.5 diwrnod yr wythnos yn cynyddu'n raddol i 2 ddiwrnod)*
  - *Dysgu ar-lein (~1 diwrnod yr wythnos yn lleihau'n raddol i ½ diwrnod)*
  - ***Ail Brofiad Ysgol:** Lleoliad gorfodol sy'n para 25 diwrnod (Mehefin–Gorffennaf ym Mlwyddyn 1 a drefnir gan Bartneriaeth AGA Y Brifysgol Agored)*

- **Sefydlu telerau cytundebol** – Cytundeb llawn **ar o leiaf pwynt 1 o'r raddfa gyflog Athrawon Heb Gymhwyso** (mae pwyntiau uwch yn ddewisol yn ôl disgresiwn y Pennaeth) am gyfnod y rhaglen.

Nodiadau
- **Nid** yw grant cyflog Llywodraeth Cymru yn cynnwys argostau.
- Hyd y rhaglen: canol mis Medi (Blwyddyn 1) – mis Mehefin (Blwyddyn 2)
- Cytunir ar fanylion cytundebol rhwng y Pennaeth a'r cyflogai; mae llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cadarnhau bod y telerau ariannol wedi'u bodloni.
- Lluniwch gynlluniau wrth gefn os bydd y myfyriwr Cyflogedig yn tynnu'n ôl; rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor yr awdurdod lleol.
- Mae'r Ail Brofiad Ysgol yn **orfodol** ac ni ellir ei hepgor.

7. Creu Athrawon y Dyfodol
Ein Gweledigaeth ar gyfer Athrawon dan Hyfforddiant

Ein nod yw sicrhau bod myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn dod yn athrawon hyderus, gofalgar a chreadigol sy'n meddwl, yn myfyrio ac yn gweithredu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mhob ystafell ddosbarth.

Hyderus ac Annibynnol – Yn gallu cynllunio, addysgu ac addasu gwersi ar draws oedrannau, sgiliau ac anghenion gydag ymreolaeth gynyddol.

Myfyriol a Dadansoddol – Yn fedrus wrth ddefnyddio tystiolaeth, adborth ac ymchwil i wella eu hymarfer.

Cynhwysol ac yn Arddel Gwerthoedd Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb - Yn ymrwymedig i lesiant a hawliau disgyblion a dileu rhwystrau i ddysgu i bawb.

Gwybodus ac yn cael eu Llywio gan Ymchwil – Wedi'u gwreiddio mewn theori datblygiad plant, addysgeg ac arbenigedd pwnc, maent yn integreiddio theori ac ymarfer i lywio barn broffesiynol ac arwain dysgu disgyblion.

Cydweithredol a Chymunedgar – Gweithio'n effeithiol gyda Mentoriaid, cydweithwyr a chymuned yr ysgol i wella dysgu.

Creadigol ac Addasol – Arloesol o ran dulliau addysgu, datrys problemau ac ymgysylltu â dysgwyr mewn ffyrdd ystyrlon, gan fanteisio ar eu dysgu ar-lein a chyfunol eu hunain i ddefnyddio technoleg i wella dysgu

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a blaenoriaethau cenedlaethol Cymru - helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau allweddol ym meysydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPhau).

Beth mae hyn yn ei olygu i Ysgolion Partner?

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae ysgolion yn gweithredu fel **cymunedau dysgu proffesiynol** lle mae myfyrwyr yn cael eu harwain, eu herio a'u hysbrydoli drwy'r canlynol:

- **Mentora Strwythuredig:** Darparwch amser rheolaidd, wedi'i neilltuo ar gyfer adborth, myfyrio a chynllunio.
- **Bod yn Fodel Rôl:** Dangoswch greadigrwydd, y gallu i addasu, disgwyliadau uchel ac addysgu cynhwysol.
- **Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth:** Anogwch fyfyrwyr i gysylltu theori ag ymarfer ac ymgysylltu ag ymchwil.
- **Cyfrifoldeb Graddol:** Cefnogwch fyfyrwyr wrth iddynt symud ymlaen o arsylwi i addysgu annibynnol.
- **Cwricwlwm a Sgiliau Cymru:** Ymgorfforwch gyfleoedd i ddatblygu iaith, llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.
- **Llesiant a Chymorth:** Sicrhewch amgylchedd diogel a meithringar sy'n galluogi myfyrwyr i gymryd risgiau a dysgu o brofiad.



Mae llesiant yn allweddol i ddod yn athro hyderus, effeithiol a chynaliadwy. Yn ystod y rhaglen TAR, mae athrawon dan hyfforddiant yn cael eu cefnogi i ddatblygu arferion a strategaethau sy'n eu helpu i gadw'n iach, rheoli llwyth gwaith a chynnal cydbwysedd rhwng astudio, ymarfer yn yr ysgol a bywyd personol.

Mae mabwysiadu dull rhagweithiol o ymdrin â llesiant yn cefnogi dysgu ac addysgu, gan helpu athrawon dan hyfforddiant i ymgysylltu'n llawn, meithrin gwydnwch a datblygu fel gweithwyr proffesiynol.

Ffigur 2: 5 Ffordd y GIG o Gefnogi Llesiant

Anogir athrawon dan hyfforddiant i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau a chymorth ymarferol, gan gynnwys:

- Ap Llesiant Myfyrwyr Y Brifysgol Agored a'r Llawlyfr Llesiant Myfyrwyr
- Sgyrsiau rheolaidd â Mentoriaid a Thiwtoriaid gan gynnwys tiwtorialau un i un
- Y Cynlluniwr Athrawon dan Hyfforddiant (sy'n cyd-fynd â'r cynlluniwr Mentoriaid a'r cynlluniwr Cydlynwyr Ysgolion)
- Cymorth gan gymheiriaid a chyfleoedd i lywio prosesau gwneud penderfyniadau, addysgu a dysgu drwy'r Senedd Fach, fforymau a grwpiau myfyrwyr

Mae'r adnoddau hyn yn helpu myfyrwyr i gynllunio, myfyrio a datblygu arferion cadarnhaol a chynaliadwy.




8. Sut mae Myfyrwyr yn Dysgu

Mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu trwy fodel partneriaeth cyfunol lle mae cysylltiad agos rhwng ymarfer dysgu, astudio unedau ar-lein a myfyrio proffesiynol. Yn hytrach na damcaniaeth yn gyntaf ac ymarfer yn ddiweddarach, mae dysgu'n datblygu drwy gylchoedd parhaus o ymarfer a myfyrio.

Darllenwch fwy am y ddamcaniaeth dysgu sy'n sail i gynllun ein rhaglen yma.

1. Dysgu drwy Ymarfer

Mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu'n bennaf drwy brofiad yn yr ystafell ddosbarth gyda chymorth yn ystod amser ***Ymarfer Dysgu*** yn yr ysgol. Mae dull graddol yn meithrin gwydnwch, hyder a barn broffesiynol wedi'u strwythuro ar draws tri cham dysgu:



Ffigur 3: Gweithgarwch addysgu ar bob lefel

2. Model Dysgu Sbiral

Mae athrawon dan hyfforddiant yn dychwelyd at yr un meysydd allweddol sawl gwaith yn ystod y rhaglen, bob tro ar lefel ddyfnach. Mae 6 uned astudio â thema ym mhob cam.

Mae dysgu yn canolbwyntio ar y canlynol:
- sut mae plant yn datblygu ac yn dysgu
- sut mae addysgu'n cefnogi dysgu
- sut mae cynllunio ac asesu yn gwella deilliannau
- meithrin hyder trwy lwyddiant gyda chymorth

Yn hytrach na dysgu popeth unwaith, mae athrawon dan hyfforddiant yn gwneud y canlynol:
- rhoi cynnig ar syniadau yn yr ystafell ddosbarth
- myfyrio ar yr hyn a weithiodd
- gwella eu haddysgu
- dychwelyd at yr un syniadau gyda mwy o brofiad

Felly mae dysgu yn broses **gynyddol, yn hytrach na bod yn ddigwyddiad untro**.

Y Cwricwlwm

Cynllunio ar gyfer Dysgu

Addysgeg

Asesu

Deall Dysgwyr

Ymarfer Proffesiynol

Themâu chwe uned astudio ar-lein

3. Cysylltu Theori ag Ymarfer

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar y syniad bod athrawon effeithiol yn datblygu gwybodaeth mewn tair ffordd, sef:

- **Dysgu o astudio** (cwricwlwm, addysgeg ac ymchwil)
- **Dysgu o ymarfer** (addysgu a phrofiad yn yr ystafell ddosbarth)
- **Dysgu drwy fyfyrio** (meddwl yn feirniadol am addysgu)

Mae athrawon dan hyfforddiant yn cysylltu'n barhaus:
Astudio→ Ymarfer→ Myfyrio→ Gwella

4. Dysgu drwy Ymholiad Ymarferol

Mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu trwy **feddwl am addysgu, nid dim ond ei wneud**.

Astudio Gwersi
- Cynlluniwch wersi ar y cyd
- Canolbwyntiwch ar sut mae disgyblion yn ymateb
- Arsylwch, myfyriwch a gwellwch gyda'ch gilydd

Ymholiad Proffesiynol (astudiaeth ar raddfa fach)
- Gofynnwch gwestiwn am addysgu neu ddysgu
- Ymgymerwch â theori ac ymchwil
- Rhowch gynnig ar ddull sy'n seiliedig ar wybodaeth yn yr ystafell ddosbarth
- Myfyriwch ar yr effaith ar ddisgyblion

Mae'r dulliau hyn yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddod yn **athrawon myfyriol sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth.**


5. Dysgu fel Rhan o Gymuned Broffesiynol

Mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu drwy **gydberthnasau proffesiynol**, nid ar eu pen eu hunain.

Fe'u cefnogir gan y canlynol:
- Mentor (Ysgol)
- Cydlynydd Ysgol (Ysgol)
- Staff ysgol ehangach (Ysgol)
- Tiwtor Cwricwlwm (Prifysgol)
- Tiwtor Ymarfer (Partneriaeth)

Maent yn dysgu drwy **drafod, cael adborth, myfyrio a chydweithio** i ddatblygu gwybodaeth broffesiynol yr athro dan hyfforddiant.

Y gumuned broffesiynol



Ffigur 4: Gwybodaeth broffesiynol

9. Rolau Addysgwyr Athrawon yn y Bartneriaeth

Mae athrawon dan hyfforddiant yn cael eu cefnogi gan dîm proffesiynol ar draws y bartneriaeth.

Mae dysgu yn cael ei gyflwyno drwy **fodel cyfunol**: mae llawer o'r astudio academaidd yn digwydd ar-lein, ond, yn yr ysgol, **Cydlynydd yr Ysgol a'r Mentor sy'n darparu'r cymorth wyneb yn wyneb allweddol** sy'n helpu i gysylltu theori ag ymarfer.

Mae gan bob rôl gyfrifoldeb clir a phenodol o ran arwain a meithrin datblygiad y myfyriwr.





CYDLYNYDD YSGOL

Mae'n arwain AGA yn yr ysgol

- Mae'n cynllunio ac yn goruchwylio dysgu'r athro dan hyfforddiant yn yr ysgol, gan gynnwys hwyluso gweithgareddau ymarfer dysgu
- Mae'n cefnogi ac yn arwain y tîm o Fentoriaid ac yn sicrhau darpariaeth fentora o ansawdd uchel
- Mae'n sicrhau bod amserlenni a chyfleoedd yn bodloni gofynion y rhaglen ac yn cefnogi cynnydd myfyrwyr
- Mae'n gweithio gyda'r brifysgol i fonitro cynnydd ac ansawdd y cymorth





MENTOR

Mae'n cefnogi'r athro dan hyfforddiant o ddydd i ddydd

- Mae'n cyfarfod â'r athro dan hyfforddiant bob wythnos/bob 5 diwrnod i gefnogi gwaith cynllunio, addysgu a myfyrio trwy fentora strwythuredig
- Mae'n arsylwi ar addysgu ac yn rhoi adborth
- Mae'n helpu i gysylltu theori ag ymarfer drwy gyfryngu gweithgareddau ymarfer dysgu yn yr ysgol
- Mae'n llywio cynnydd tuag at SAC gan ddefnyddio'r fframwaith cynnydd





TIWTOR CWRICWLWM

Mae'n arwain dysgu academaidd a phroffesiynol

- Mae'n arwain astudio ar-lein, seminarau a thiwtorialau unigol
- Mae'n rhoi arweiniad academaidd ac adborth ar aseiniadau
- Mae'n monitro cynnydd ar draws y rhaglen
- Mae'n cefnogi llesiant
- Mae'n arwain cymorth ychwanegol pan fo hynny'n ofynnol gan y fframwaith cefnogi myfyrwyr





TIWTOR YMARFER

Mae'n cefnogi ymarfer dysgu ar draws ysgolion

- Ymarferydd allanol profiadol (fel arfer mewn ysgol bartner)
- Mae'n cynnal dau *ymweliad arlein* i arsylwi ar gynnydd myfyrwyr, ei asesu a'i ddilysu
- Mae'n edrych ar e-bortffolio athrawon dan hyfforddiant yn rheolaidd drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)
- Mae'n hyfforddi ac yn cefnogi Mentoriaid i wella ansawdd gwaith mentora
- Mae'n helpu i sicrhau ansawdd ymarfer dysgu ac yn rhannu arferion â phob rhan o'r bartneriaeth

Rolau a Chyfrifoldebau yn yr Ysgol
Cydlynydd Ysgol

Mae Cydlynydd yr Ysgol yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer AGA yn yr ysgol. Mae'n gyfrifol am ansawdd a chysondeb cyffredinol profiad athrawon dan hyfforddiant, gan sicrhau bod darpariaeth fentora, prosesau trefnu lleoliadau a hyfforddiant yn yr ysgol yn cael eu cydlynu'n effeithiol. Mae'n gweithredu fel y prif gyswllt rhwng yr ysgol a'r bartneriaeth ac mae'n atebol am sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu deall a'u bodloni ar draws yr ysgol.



Ffigur 5: Rolau a chyfrifoldebau Cydlynwyr Ysgolion

Dechreuwch arni: Cofrestrwch eich rôl fel Cydlynydd Ysgol gan ddefnyddio ein Ffurflen Cofrestru Partner. Nodwch ymarferwyr profiadol fel Mentoriaid a sicrhewch eu bod yn cwblhau'r ffurflen. Bydd hyn yn ein galluogi i gadarnhau eich rôl, rhannu gwybodaeth allweddol, a darparu mynediad i systemau fel y PDP. **Ni allwn** sefydlu hyn heb ffurflenni wedi'u cwblhau.

Sicrhewch eich bod yn deall eich rôl: Os ydych chi'n newydd i'r bartneriaeth, neu os nad ydych chi wedi cwblhau'r Hyfforddiant Hanfodion Cydlynwyr Ysgolion ar-lein eto (sy'n ofynnol bob dwy flynedd), dyma eich man cychwyn ar gyfer deall eich rôl. Mae'n rhoi trosolwg gweithredol clir o gyfrifoldebau a disgwyliadau allweddol.

Ewch i'r sesiwn friffio flynyddol: Rydym yn cynnal digwyddiadau yn Gymraeg a Saesneg. Caiff pob sesiwn friffio ei chyflwyno ddwywaith ar wahanol adegau i gefnogi presenoldeb ac mae wedi'i deilwra yn ôl rôl. Rydym yn argymell bod y rhai sy'n cefnogi myfyrwyr cyflogedig yn mynd i'r sesiwn gynharach, a'r rhai sy'n cefnogi myfyrwyr rhan-amser yn mynd i'r sesiwn ddiweddarach i gyd-fynd â dechrau cyfnodau ymarfer dysgu ar draws llwybrau.

Cadwch mewn cysylltiad: Ewch i sesiynau galw heibio rheolaidd i gysylltu â'r Tîm Dysgu Proffesiynol a chodi unrhyw gwestiynau. Darllenwch y cylchlythyr tymhorol a rhannwch ddiweddariadau allweddol â'ch tîm o Fentoriaid.

Rolau a Chyfrifoldebau yn yr Ysgol
Mentor

Mae mentoriaid yn ymarferwyr ystafell ddosbarth profiadol sy'n gweithio o ddydd i ddydd gydag athrawon dan hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad yn ymarferol. Maent yn rhoi arweiniad strwythuredig ar gynllunio gwersi, addysgu, asesu a gwybodaeth am bynciau, ochr yn ochr ag adborth rheolaidd a deialog broffesiynol. Mae mentoriaid yn chwarae rôl allweddol wrth helpu athrawon dan hyfforddiant i fyfyrio ar eu hymarfer a gwneud cynnydd yn erbyn y disgwyliadau ar gyfer SAC, gan weithio'n agos gyda Chydlynwyr Ysgol a'r bartneriaeth ehangach i sicrhau cymorth cyson o ansawdd uchel.



Ffigur 6: Rolau a chyfrifoldebau mentoriaid

Dechreuwch arni: Cofrestrwch eich rôl fel Mentor gan ddefnyddio ein Ffurflen Cofrestru Partner. Mae hyn yn cadarnhau eich rôl, yn galluogi mynediad at systemau fel y PDP, ac yn sicrhau eich bod yn cael gwybodaeth allweddol. **Ni allwn** sefydlu hyn heb ffurflen wedi'i chwblhau.

Deall eich rôl: Os ydych chi'n newydd i rôl Y Brifysgol Agored, neu os nad ydych chi wedi cwblhau Hanfodion Mentoriaid (sy'n ofynnol bob dwy flynedd), dyma eich man cychwyn. Mae'n amlinellu'r disgwyliadau o ran mentora yn y model hwn a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn un o Fentoriaid Y Brifysgol Agored. Datblygir hyn ymhellach drwy Meddylfryd Mentora, sef cwrs ar-lein ar fentora effeithiol ar hyd taith y myfyriwr (i'w gwblhau o fewn 18 mis).

Ewch i'r sesiwn friffio flynyddol: Rydym yn cynnal sesiynau brifio yn Gymraeg a Saesneg, gyda phob sesiwn yn cael ei chyflwyno ddwywaith ar wahanol adegau i gefnogi presenoldeb. Mae sesiynau'n cael eu teilwra yn ôl rôl.

Adnoddau i'ch cefnogi: Rydych yn cael eich cefnogi drwy adnoddau allweddol gan gynnwys y Cynlluniwr Mentoriaid (dyddiadau a gweithgareddau), sesiynau galw heibio wythnosol gyda'r Tîm Dysgu Proffesiynol, a'r Pecyn Cymorth i Fentoriaid, sef adnodd ymarferol ar gyfer cefnogi ymarfer athrawon dan hyfforddiant. **Cofiwch**: os nad ydych wedi cofrestru fel Mentor, ni fyddwn yn cadw eich manylion ac, felly, ni allwn anfon adnoddau allweddol atoch.

10. Darpariaeth mewn Ysgolion
Sut mae Ysgolion yn Cefnogi Dysgu Athrawon dan Hyfforddiant

O fewn model diwygiedig AGA yng Nghymru, mae Ysgolion Partner yn chwarae rhan ganolog wrth ddylunio ac arwain dysgu athrawon dan hyfforddiant ar draws 120 diwrnod o brofiad ysgol.

Gan ddefnyddio ymchwil i ddatblygiad athrawon effeithiol, mae'r rhaglen yn ymgorffori amrywiaeth o weithgareddau dysgu strwythuredig yn yr ysgol a arweinir gan Fentoriaid a Chydlynwyr Ysgolion i gefnogi cynnydd yn ymarfer athrawon dan hyfforddiant.

Mentora Ffurfiol

Mae mentoriaid yn darparu cymorth o ddydd i ddydd, gan helpu myfyrwyr i gynllunio gwersi, addysgu a datblygu eu gwybodaeth am y pwnc drwy roi arweiniad ac adborth parhaus. Mae cyfarfodydd wythnosol strwythuredig yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei adolygu a bod y camau nesaf yn cael eu cynllunio'n glir, gan helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau, hyder a chysylltiadau rhwng theori ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

Meddylfryd Mentora yw ein hadnodd dysgu proffesiynol i gefnogi dealltwriaeth Mentoriaid o ddamcaniaethau mentora effeithiol ac mae'n eu helpu i ddatblygu sgiliau myfyrwyr ar bob cam o'r cwrs.

Gweithgareddau Ymarfer Dysgu

Mae Gweithgareddau Ymarfer Dysgu yn dasgau strwythuredig, ffurfiannol yn yr ysgol y bwriedir iddynt integreiddio theori ac ymarfer a chânt eu cefnogi a'u cyfryngu gan Fentoriaid a Chydlynwyr Ysgolion. Drwy eu cwblhau, mae myfyrwyr yn cael adborth parhaus ac yn datblygu meddwl cynyddol ddyfnach am addysgu, gan feithrin profiad a dealltwriaeth yn raddol yn ystod y cwrs. Gyda'i gilydd, mae'r Gweithgareddau Ymarfer Dysgu yn meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r myfyrio sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad diwedd modiwl terfynol.

*Mae ysgolion partner yn cael **cynlluniwr seiliedig ar rôl (drwy e-bost)** sy'n amlinellu pryd a sut i helpu athrawon dan hyfforddiant gyda'u Gweithgareddau Ymarfer Dysgu.*

Deialog Broffesiynol

Mae deialog broffesiynol yn broses strwythuredig, barhaus sy'n cefnogi trafodaeth ddofn ynghylch addysgu a dysgu. Mae'n digwydd rhwng athrawon dan hyfforddiant, Mentoriaid, Cydlynwyr Ysgolion a Thiwtoriaid Ymarfer, ac mae'n cael ei gryfhau drwy adnoddau fel **IRIS Connect**, **Ymweliadau Tiwtoriaid Ymarfer ar-lein** a chyfarfodydd â Mentoriaid. Mae'r rhyngweithio hwn yn mynd y tu hwnt i ddiweddariadau arferol i ganolbwyntio ar ddadansoddi ymarfer, ystyried yr effaith ar ddisgyblion a nodi camau nesaf wedi'u targedu ar gyfer gwella.

*Mae'r **Pecyn Cymorth i Fentoriaid** yn darparu deunyddiau parod i'w defnyddio'n ymarferol ac mae athrawon dan hyfforddiant yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol fyfyriol â ffocws.*

Darpariaeth mewn Ysgolion
Cymorth mewn Ysgolion i Ddatblygu Meddylfryd Ymholi

Astudio Gwersi (Blwyddyn 1)

Mae astudio gwersi yn broses gydweithredol lle mae Mentoriaid ac athrawon dan hyfforddiant yn cynllunio gwersi, yn arsylwi arnynt ac yn myfyrio arnynt gyda'i gilydd er mwyn gwella ymarfer addysgu, meithrin gwybodaeth am y pwnc a gwella dealltwriaeth o sut mae disgyblion yn dysgu.

*Mae mentoriaid yn defnyddio'r **Mat Astudio Gwersi** fel canllaw cychwyn cyflym i'r dull hwn i gefnogi dysgu athrawon dan hyfforddiant.*

Cylchoedd Myfyrio a Chynllunio Gweithredu Strwythuredig

Mae ysgolion yn cefnogi myfyrio strwythuredig drwy adolygu gwaith cynllunio gwersi, gwerthusiadau o wersi a myfyrdodau wythnosol yn rheolaidd. Mae mentoriaid yn defnyddio'r sesiynau cyswllt hyn i roi adborth, annog meddwl dyfnach a helpu myfyrwyr i gysylltu ymarfer â model myfyrio a fframwaith cynnydd Y Brifysgol Agored, gan sicrhau bod i fyfyrio ffocws penodol a'i fod anelu at sicrhau gwelliant.

*Mae myfyrio effeithiol yn helpu athrawon dan hyfforddiant i nodi targedau CAMPUS, a geir yn yr adran **Traciwr Targedau** yn e-bortffolio eu PDP, gan roi darlun clir a rennir o anghenion datblygu i bob cydweithiwr perthnasol.*

Ymholiad Proffesiynol (Blwyddyn 2)

Ymchwiliad graddfa fach sy'n seiliedig ar ymarfer yw ymholiad proffesiynol lle mae athrawon dan hyfforddiant yn archwilio agwedd ar addysgu a dysgu yn fanwl, gan ddefnyddio tystiolaeth ac ymchwil yn yr ystafell ddosbarth i wella ymarfer.


Mae Cydlynwyr Ysgolion yn cefnogi drwy gymeradwyo ffocws yr ymholiad yng nghyd-destun yr ysgol a gweithredu fel porthgeidwaid ar gyfer cymeradwyaeth foesegol. Gall mentoriaid gyfrannu drwy gynnig arbenigedd pwnc ac arbenigedd addysgegol. Gyda chymorth pellach Tiwtoriaid Cwricwlwm, mae'r ymholi yn helpu myfyrwyr i gysylltu theori ag ymarfer a datblygu barn broffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

*Mae'r **Llawlyfr Ymholiadau Proffesiynol** yn darparu canllawiau ar gyfer cynllunio a chynnal ymholiad bach y myfyriwr. Mae'n amlinellu camau allweddol, ystyriaethau moesegol, a phrosesau yn yr ysgol, ac yn cefnogi Mentoriaid, Cydlynwyr Ysgolion ac athrawon dan hyfforddiant er mwyn sicrhau bod ymholiadau'n ymarferol ac yn drylwyr a'u bod yn canolbwyntio ar wella arfer.*

Drwy fabwysiadu'r dulliau allweddol hyn, mae Ysgolion Partner yn chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod dysgu athrawon dan hyfforddiant yn cael ei gefnogi'n gyson a'i fod o ansawdd uchel.

Mae Mentoriaid a Chydlynwyr Ysgolion yn sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol a'u bod yn canolbwyntio ar wella ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, gan feithrin hyder, cymhwysedd a barn broffesiynol yr athro dan hyfforddiant dros amser.

11. Anogwr y Gymraeg
Hyrwyddo'r Gymraeg



Mae addysgu yng Nghymru yn gofyn am gysylltu iaith, dysgu a Cynefin — gan helpu pob dysgwr i deimlo ei fod yn perthyn.

Mae hyn yn cynnwys helpu athrawon dan hyfforddiant i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus, gan ddod â'r iaith yn fyw mewn ffyrdd sy'n ysbrydoli cysylltiad, hunaniaeth a pherthyn ym mhob ystafell ddosbarth.

Mae datblygu'r Gymraeg yn rhan bwysig o ddod yn athro yng Nghymru. Mae athrawon dan hyfforddiant yn cael cymorth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg eu hunain a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn briodol yn nghyd-destun yr ystafell ddosbarth ac mewn cyd-destunau proffesiynol.

Mae hyn hefyd yn cynnwys meithrin y gallu i helpu disgyblion i ddysgu Cymraeg drwy addysgu bob dydd, a deall sut mae iaith, hunaniaeth a dysgu yn cael eu llywio gan Cynefin a diwylliant Cymru.

Dylai hyrwyddwr y Gymraeg ac addysgeg, sef Anogwr y Gymraeg, fod ar gael i bob athro dan hyfforddiant yn ei ysgol. Dyma'r unigolyn i fynd ato am gyngor, modelu a chymorth. Gall y rôl hon gael ei chyflawni gan y Mentor os oes ganddo'r arbenigedd priodol neu aelod arall o'r staff sy'n hyderus i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac addysgeg ddwyieithog ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd.


Mae'n ofynnol i athrawon dan hyfforddiant lunio portffolio o dystiolaeth sy'n gysylltiedig â Fframwaith Cymhwysedd Iaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymarferwyr Addysg.

Yr hyn y gall ysgolion ei wneud i gefnogi datblygiad

- Cyflwyno myfyrwyr i arweinwyr datblygu'r Gymraeg yng nghymuned yr ysgol er mwyn rhannu adnoddau
- Annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol a'u hyrwyddo
- Helpu i drefnu arsylwadau o wersi Cymraeg ar lefel briodol i ddatblygu dealltwriaeth o addysgeg iaith
- Rhannu gwybodaeth am weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gymuned leol e.e.Menter Iaith, Aelwyd yr Urdd, digwyddiadau a sefydliadau diwylliannol
- Cyfarfod yn ffurfiol unwaith y tymor i drafod targedau a'r camau nesaf (gweler cynllun Datblygu fy sgiliau Cymraeg y myfyrwyr)
- Annog trafodaeth ynghylch Cynefin a'r cyd-destun lleol fel rhan o weithgarwch cynllunio'r cwricwlwm ac ymgysylltu â disgyblion
- Helpu myfyrwyr i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu portffolio Cymhwysedd yn y Gymraeg drwy ymarfer bob dydd

12. Y Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr

Mae'r Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr yn ddull strwythuredig i'r bartneriaeth gyfan y bwriedir iddo sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael y cymorth cywir, ar yr adeg gywir, trwy dri llwybr graddedig o gymorth ac ymyrraeth gynnar.



Anghenion a Rennir *– i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu y gallai fod angen addasiadau rhesymol arnynt.*

Gweithredu dros Gynnydd*– a ddefnyddir pan fo angen cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn helpu myfyriwr i fodloni gofynion cynnydd academaidd neu seiliedig ar ymarfer.*

Darpariaeth Estynedig *– a ddefnyddir pan fo angen cymorth ychwanegol i hyrwyddo iechyd a llesiant, neu i helpu myfyriwr i gyflawni ei botensial llawn.*

Ffigur 7: Llwybrau'r Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr

Drwy fabwysiadu dull cydweithredol, wedi'i dargedu o gynllunio camau gweithredu, mae'r Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr yn darparu proses glir ar gyfer nodi pryd y gallai fod angen cymorth neu addasiadau ychwanegol ac ar gyfer rhoi darpariaeth wedi'i theilwra ar waith er mwyn helpu athrawon dan hyfforddiant i reoli llesiant, cynnal cynnydd a bodloni disgwyliadau'r rhaglen. Gall cymorth fod yn fyrdymor neu'n fwy strwythuredig, yn dibynnu ar anghenion unigol, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd.

Gall y Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr gael ei roi ar waith naill ai gan yr athro dan hyfforddiant neu'r rhai sy'n ei gefnogi a bwriedir iddo hyrwyddo cymorth cynnar, gyson a chydweithredol rhwng yr ysgol a'r brifysgol.

Os bydd gennych bryderon ynghylch llesiant athro dan hyfforddiant neu'n teimlo y gallai fod angen cymorth ychwanegol (er enghraifft, addasiadau rhesymol neu gymorth i sicrhau cynnydd), cysylltwch â Thiwtor Cwricwlwm y myfyriwr yn y lle cyntaf. **Mae ymyrryd yn gynnar yn allweddol i sicrhau cymorth amserol ac effeithiol**.

Lle y bo'n briodol, gall y Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr hefyd weithredu ochr yn ochr â phrosesau Addasrwydd i Astudio neu Addasrwydd i Ymarfer Y Brifysgol Agored. Yn achos myfyrwyr cyflogedig, gallai fod angen dilyn polisïau a gweithdrefnau staff yr ysgol berthnasol hefyd.

13. Dylunio ar gyfer Dysgu yn yr Ysgol


Mae myfyrwyr ar y llwybr cyflogedig a'r llwybr rhan-amser yn dilyn yr un rhaglen a rhaid iddynt gyrraedd yr un Safonau Proffesiynol, ond gall eu cyd-destunau a'u mannau cychwyn fod yn wahanol, sy'n llywio sut maent yn ymgysylltu â dysgu a'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Efallai y bydd angen cyfleoedd strwythuredig ar fyfyrwyr rhan-amser i ymarfer ac atgyfnerthu, tra bod myfyrwyr cyflogedig yn aml yn dod â phrofiad ysgol blaenorol sy'n gofyn am fyfyrio'n feirniadol a chysoni â disgwyliadau'r rhaglen. Mae pob un yn dod â phrofiadau byw amrywiol, a chyfoethog yn aml, a all fod yn adnodd gwerthfawr wrth ddatblygu eu hymarfer. Mae ymarfer dysgu wedi'i strwythuro'n wahanol yn dibynnu ar y llwybr y mae'r myfyriwr yn ei ddilyn. Mae hyn yn llywio sut maent yn cydbwyso astudio ar-lein â phrofiad yn yr ysgol.

Yn TAR1, mae'r ffocws ar osod sylfeini gwybodaeth broffesiynol; addysgu dan arweiniad; effaith sy'n dod i'r amlwg; ffocws ar arferion, cydweithio a myfyrio.

Yn TAR2, mae athrawon dan hyfforddiant yn meithrin hyder a dibynadwyedd; cynllunio, addysgu ac asesu cydlynol; cydweithio pwrpasol; ymgysylltu ag ymchwil ac arloesi; datblygu barn broffesiynol sicr.

Erbyn TAR3, mae'r ffocws yn newid i ddangos ymarfer ymreolaethol, dibynadwy ac atebol ar draws yr holl safonau ac effaith barhaus ar ddeilliannau dysgwyr.



Wrth i fyfyrwyr wneud cynnydd, gallant adeiladu ar ddysgu cynharach neu ddod ar draws profiadau newydd sy'n dyfnhau eu gwybodaeth ac yn gwella eu sgiliau. Nid yw datblygiad yn hollol linol a gall amrywio rhwng cyd-destunau. Mae hyn yn golygu, yn ystod eu profiad ysgol, bod angen i athrawon dan hyfforddiant ehangu eu profiadau yn y lleoliad ysgol fwyfwy. **Yn ymarferol, mae hyn yn golygu gwneud newidiadau i'w hamserlen i gefnogi'r model datblygu tri cham hwn.**




Cydlynydd Ysgol fel Dylunydd Dysgu

Bwriedir i ganllawiau amserlennu fod yn egwyddorion i lywio barn broffesiynol. Mae Cydlynwyr Ysgolion, fel partneriaid dibynadwy, yn gyfrifol am eu defnyddio i lunio amserlenni effeithiol sy'n cefnogi dysgu athrawon dan hyfforddiant **yn unol â'r model achrededig** a nodir yn y canllaw hwn.

Dylid defnyddio amserlennu'n bwrpasol i fodloni gofynion y rhaglen a galluogi dysgu o ansawdd uchel yng nghyd-destun yr ysgol, gan sicrhau cydbwysedd rhwng cynnydd, llwyth gwaith a llesiant, gyda datblygiad a llesiant myfyrwyr yn parhau i fod yn ystyriaethau canolog drwyddi draw.

14. Profiad Ysgol: Ymarfer Dysgu

Gelwir yr amser y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei dreulio yn yr ysgol sydd wedi'i neilltuo i ddatblygu addysgu TAR yn **ymarfer dysgu**. Mae'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, wedi'u strwythuro drwy **Weithgareddau Ymarfer Dysgu** a **dull addysgu graddedig.** Mae angen i amserlen myfyriwr ystyried ei brofiadau blaenorol, ei anghenion datblygu, y lefel astudio, y llwybr astudio a gofynion y rhaglen.



***Ffigur 8*: Elfennau Ymarfer Dysgu**

Drwy gydol y TAR, rhaid i <u>bob athro dan hyfforddiant</u> wneud y canlynol:


- Cael profiad mewn dwy ysgol dros 120 diwrnod
- Addysgu ar draws dau gyfnod cynnydd olynol (yn y sector cynradd, ar draws oedrannau 3–7 a 7–11: yn y sector uwchradd: oedrannau 11–14 a 14–16), gyda thystiolaeth yn cael ei chadarnhau drwy gymeradwyaeth Cydlynydd yr Ysgol
- *Cynradd*: dangos ymgysylltu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad dros amser, gyda cynnydd o ran addysgu'r cwricwlwm a chydlyniant dilyniannau dysgu
- *Uwchradd*: addysgu ar draws amrywiaeth o grwpiau, lefelau cyrhaeddiad a phynciau cwricwlwm o fewn eu pwnc, gan gynnwys addasu ar gyfer anghenion a chyd-destun dysgwyr


Y Llwybr Rhan-Amser yn Unig

Mae athrawon dan hyfforddiant yn cwblhau 60 diwrnod o leoliad mewn Ysgol Bartner ym Mlwyddyn 1 (25 + 35 diwrnod) a 60 diwrnod pellach, fel arfer mewn Ysgol Bartner arall, ym Mlwyddyn 2 gan gynnwys bloc llawnamser gorfodol o 30 diwrnod. Mae astudio ar-lein yn hunanreoledig. Fodd bynnag, rhaid defnyddio'r holl amser ymarfer yn yr ysgol ar gyfer y gweithgareddau strwythuredig a amlinellir yn Ffigur 8. **Rhaid i'r holl ymarfer dysgu gael ei oruchwylio'n llawn ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2.** Mae myfyrwyr yn cwblhau diwrnodau ysgol llawn yn unol ag amser cyfeiriedig ar gyfer athrawon a rhaid iddynt addysgu o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos yn ystod y cyfnodau ymarfer dysgu.

Y Llwybr Cyflogedig yn Unig

Mae'r llwybr hwn yn gofyn am amserlen strwythuredig sy'n cydbwyso cyflogaeth, ymarfer dysgu ac astudio ar-lein wedi'i ddiogelu dros ddwy flynedd. Ym Mlwyddyn 1, mae cyflogaeth yn dechrau ym mis Medi, a chytunir ar amserlenni erbyn mis Hydref; **Rhaid i'r holl ymarfer dysgu gael ei oruchwylio'n llawn.** Ym Mlwyddyn 2, cadarnheir trefniadau ymlaen llaw, a gall myfyrwyr addysgu'n fwy annibynnol gyda chymorth agos hyd at 70% o'r amser. Rhaid i ysgolion sicrhau bod amser wedi'i neilltuo ar gyfer pob elfen, gan addasu lle mae angen cymorth ychwanegol.





Ffigur 9: Strwythur ymarfer dysgu Rhan-amser

Blwyddyn 1 – TAR1&2*

- **TAR1:** 25 diwrnod (tua 2-3 diwrnod yr wythnos neu floc o 5 wythnos)
- Mentora bob 5 diwrnod**
- Dwysedd addysgu o 30-50% dan oruchwyliaeth Mentor/athro dosbarth, y gweddill i weithgareddau ymarfer dysgu, mentora a chynllunio, paratoi ac asesu
- Rhan o wersi yn symud i wersi llawn gan ddefnyddio cynllun gwers Y Brifysgol Agored

- TAR2: 35 diwrnod (tua 3 diwrnod yr wythnos neu floc o 7 wythnos)
- Mentora bob 5 diwrnod
- Dwysedd addysgu o 40-60% dan oruchwyliaeth Mentor/athro dosbarth, y gweddill i weithgareddau ymarfer dysgu, mentora a chynllunio, paratoi ac asesu
- Gwersi llawn yn symud i ddilyniannau o wersi gan ddefnyddio cynllun gwers dilyniant Y Brifysgol Agored

**Pan fo TAR1 a TAR2 yn digwydd yn yr un ysgol, gellir cwblhau lleoliadau sy'n para 25 a 35 diwrnod yn olynol, gyda chynnydd clir o ran cyfrifoldeb yn amlwg dros amser.*


***Pan gaiff TAR1 ei gwblhau mewn ysgol arbennig neu leoliad cyflogedig (heb gyflog), ymgymerir â TAR2 neu 3 mewn ysgol newydd i sicrhau profiad eang.*

Blwyddyn 2 – TAR3

- Athrawon dan hyfforddiant yn cwblhau 60 diwrnod o ymarfer yn yr ysgol
- Rhaid iddynt gwblhau 30 diwrnod mewn bloc llawnamser (5 diwrnod yr wythnos dros 6 wythnos)
- Rhaid i'r bloc llawnamser gael ei gwblhau cyn hanner tymor ym mis Chwefror
- Dwysedd addysgu o 75% dan oruchwyliaeth Mentor/athro dosbarth, y gweddill i weithgareddau ymarfer dysgu, mentora a chynllunio, paratoi ac asesu
- Ymholiad proffesiynol ar raddfa fach
- Mentora bob 5 diwrnod

Ym Mlwyddyn 1, mae'r amserlen gyflogedig yn adlewyrchu cydbwysedd rhwng dyletswyddau cyflogaeth, astudio ar-lein wedi'i ddiogelu, ac amser ymarfer dysgu ar draws TAR1 a TAR2. Ym Mlwyddyn 2, TAR 3, mae athrawon dan hyfforddiant yn camu'n llawn i'w rôl fel athrawon heb gymhwyso ochr yn ochr ag amser wedi'i neilltuo parhaus ar gyfer dysgu i addysgu.

Mae myfyrwyr wedi'u lleoli yn yr ysgol o ddechrau mis Medi. Mae astudio ar-lein a sefydlu yn dechrau o ganol mis Medi, ac rydym yn gofyn bod amserlen TAR1 ar waith erbyn mis Hydref. Mae hyn yn rhoi cyfnod sefydlu pwysig i addysgwyr athrawon mewn ysgolion ac unrhyw athrawon dan hyfforddiant newydd eu paru, gan sicrhau bod disgwyliadau, arferion a strwythurau cymorth yn sefydledig.



Dyletswyddau Cyflogaeth

Ym Mlwyddyn 1, mae myfyrwyr cyflogedig yn ymgymryd â dyletswyddau cyflogaeth sy'n ymwneud â chynorthwyo addysgu a dysgu am hyd at 50% o'u hamser yn yr ysgol. Mae gweddill yr amser wedi'i neilltuo i astudiaethau TAR (gweler isod). Erbyn Blwyddyn 2, maent yn camu'n llawn i'w rôl gytundebol fel athro heb gymhwyso a gallant ddechrau addysgu'n annibynnol hyd at 70% o'u hamser.

Amser Astudio wedi'i Ddiogelu

Mae astudio unedau ar-lein yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ailystyried ymarfer sefydledig o safbwynt beirniadol wedi'i lywio gan theori a pholisi. Mae amser astudio ar-lein wedi'i ddiogelu ar wahân i gynllunio, paratoi ac asesu. Dylid ei ddarparu mewn blociau o hanner diwrnod o leiaf. Ategir gweithgarwch astudio unedau gan seminarau gyda'r nos bob pythefnos gyda Thiwtor Cwricwlwm Y Brifysgol Agored.






Amser Ymarfer Dysgu


Ymarfer dysgu yw'r amser datblygu addysgu penodedig o fewn y TAR, sy'n canolbwyntio ar ddysgu sut i addysgu. Dengys y ffigur isod strwythur wythnosol nodweddiadol, gan gynnwys trefnu ymarfer dysgu yn set o weithgareddau dysgu penodol.

Ym Mlwyddyn 1, **rhaid** i ymarfer dysgu gael ei **oruchwylio** gan Fentor a/neu athro dosbarth a digwydd yn bennaf mewn lleoliadau prif ffrwd, gydag uchafswm o 30% mewn cyd-destunau nad ydynt yn rhai prif ffrwd. Gan weithio mewn lleoliadau cyfarwydd, efallai y bydd angen cymorth ar athrawon dan hyfforddiant i wahaniaethu rhwng disgwyliadau TAR a'u rôl arferol a datblygu eu hunaniaeth fel athro, gan gynnwys addasu cydberthnasau mentor-mentai presennol.



Ffigur 10: Dadansoddiad o Ymarfer Dysgu


TAR1



Blwyddyn 1 – TAR1 (Medi – Mehefin)

- 2.5 diwrnod o ddyletswyddau cyflogaeth, 1.5 ddiwrnod o ymarfer dysgu, 1 diwrnod o astudio ar-lein wedi'i ddiogelu
- Dwysedd addysgu **ymarfer dysgu** o 30-50%, dan oruchwyliaeth Mentor/athro dosbarth, y gweddill i weithgareddau ymarfer dysgu, mentora a chynllunio, paratoi ac asesu
- Rhan o wersi i wersi llawn gan ddefnyddio cynllun gwers Y Brifysgol Agored
- Mentora wythnosol


TAR2



Blwyddyn 1– TAR2 (Chwefror – Mehefin)

- 2.5 diwrnod o ddyletswyddau cyflogaeth, 2 ddiwrnod o ymarfer dysgu, ½ diwrnod o astudio ar-lein wedi'i ddiogelu
- Dwysedd addysgu **ymarfer dysgu** o 40-60%, dan oruchwyliaeth Mentor/athro dosbarth, y gweddill i weithgareddau ymarfer dysgu, mentora a chynllunio, paratoi ac asesu
- Gwersi llawn yn symud i ddilyniannau o wersi gan ddefnyddio cynllun gwers dilyniant Y Brifysgol Agored
- Mentora wythnosol
- **Ail brofiad ysgol gorfodol** (25 diwrnod) o ddechrau mis Mehefin (bydd Y Brifysgol Agored yn trefnu hyn)
- *Dewisol*: O'r Pasg ymlaen, lleihau dyletswyddau cyflogaeth i 2 ddiwrnod a chynyddu ymarfer dysgu i 2.5 diwrnod

TAR3




Blwyddyn 2– TAR3 (Medi – Mehefin)

- 3.5 diwrnod o addysgu annibynnol
- 1.5 diwrnod o amser astudio wedi'i ddiogelu (1/2 diwrnod) ac ymarfer dysgu (1 diwrnod)
- Mentora wythnosol, sy'n cefnogi myfyrio a chynnydd strwythuredig
- Yn y sector cynradd, dylai athrawon dan hyfforddiant gael profiad o holl feysydd y cwricwlwm; yn y sector uwchradd, amrywiaeth eang o gyfleoedd addysgu pwnc-benodol
- Erbyn diwedd y rhaglen, rhaid bod pob athro dan hyfforddiant wedi addysgu ar draws dau gam cynnydd olynol yn y cyfnodau oedran ysgol isaf ac uchaf.

Ffigur 11: Strwythur ymarfer dysgu cyflogedig

15. TAR 1 – Ymgyfarwyddo
Canol mis Medi i fis Ionawr

Dyma ddechrau'r rhaglen pan fydd athrawon dan hyfforddiant yn dechrau cysylltu theori ag ymarfer, meithrin hyder yn yr ystafell ddosbarth a datblygu sgiliau addysgu craidd drwy brofiad â chymorth yn yr ysgol ac astudio ar-lein.



Ffigur 12: Elfennau'r cwrs

Cefnogi Dysgwr Ar-lein/Cyfunol

Mae dysgwyr ar-lein yn llwyddo pan fyddant yn **hunangyfeiriedig, yn drefnus ac yn rhagweithiol** — gan reoli amser yn effeithiol, ymgysylltu ag adborth a chysylltu theori ag ymarfer ac, ar yr un pryd, gadw cymhelliant a chyfrannu at ddeialog broffesiynol. Dysgwch fwy am ddysgu ar-lein.

Dylai cymorth cynnar helpu myfyrwyr i sefydlu trefn arferol, cydbwyso ymrwymiadau ac ymgysylltu â dysgu ar-lein. Mae disgwyliadau clir, sesiynau cyswllt rheolaidd ac anogaeth yn meithrin hyder o'r cychwyn cyntaf. Mae **Dechrau Arni** yn uned sefydlu ar-lein hanfodol i gyflwyno myfyrwyr i'r amgylchedd dysgu rhithwir.

Ffocws Elfennau Academaidd:
- Sylfeini cynhwysol a myfyriol sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer addysgu o fewn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

Astudio Unedau:
- Dechrau arni, 1A – 1F

Digwyddiadau Dysgu:
- Sesiynau ar gyfer y modiwl cyfan a sesiynau ysgolion arweiniol, seminarau grŵp tiwtor, tiwtorialau 1:1

Asesu
- Aseiniad a Gaiff ei Farcio gan Diwtor 1 – 2000 o eiriau

Gwybodaeth a Dealltwriaeth Athrawon dan Hyfforddiant

Yn ystod y cam hwn, mae'r rhaglen TAR yn sefydlu sylfaen a rennir, sy'n seiliedig ar werthoedd, ar gyfer addysgu o fewn gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau bod ymarfer yn foesegol, yn fyfyriol ac yn seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r pedwar diben fel ysgogwyr dysgu.

Mae myfyrwyr yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae dysgwyr yn dysgu ac yn datblygu (1A), pwysigrwydd cynhwysiant, tegwch a llesiant (1B), a sut i gynllunio dysgu cydlynol sy'n cefnogi cynnydd ar draws y cwricwlwm (1C). Mae addysgeg (1D) yn canolbwyntio ar greu amgylcheddau diogel a diddorol trwy gydberthnasau effeithiol, deialog, disgwyliadau uchel ac ymddygiad ar gyfer dysgu, tra bod asesu (1E) yn rhan annatod o addysgu, sy'n defnyddio dulliau ffurfiannol ac adborth i gefnogi cynnydd a galluogedd dysgwyr. Mae ymarfer proffesiynol (1F) yn integreiddio'r llinynnau hyn drwy ganolbwyntio ar hunaniaeth athrawon, cydweithio, diogelu a myfyrio parhaus.

Er ei fod yn gyffredin ar draws cyfnodau, mae addysgu cynradd yn fwy cyfannol, tra bod addysgu uwchradd yn pwysleisio addysgeg bwnc-benodol. Yn y naill a'r llall, mae Unedau 1A–1F yn cadarnhau bod addysgu yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn cyd-fynd â chenhadaeth addysgol Cymru.

TAR 1 – Ymgyfarwyddo
Canol mis Medi i fis Ionawr

Ffocws Ymarfer Dysgu: Dull graddol â chymorth o gynllunio, addysgu a gwerthuso dysgu drwy arsylwi, myfyrio, addysgu tîm a chyfnodau dysgu byrrach, gan gysylltu theori ag ymarfer.

Strwythur Ymarfer Dysgu:

Y llwybr rhan-amser:
- 25 diwrnod yn yr ysgol - dan oruchwyliaeth
- Dwysedd addysgu o 30-50%
- Mentora bob 5 diwrnod

Y llwybr cyflogedig:
- 2.5 diwrnod o ddyletswyddau cyflogaeth
- 1.5 diwrnod o ymarfer dysgu – dan oruchwyliaeth
- 1 diwrnod o astudio ar-lein wedi'i ddiogelu
- Mentora wythnosol

Gweithgareddau Allweddol
- Hyfforddiant Diogelu ac Atal
- Gweithgareddau Ymarfer Dysgu 1 – 5
- Arsylwadau ar Wersi 1 a 2
- Adolygiad o ymarfer 1 a 2
- Ymweliad 1 y Tiwtor Ymarfer

Ymarfer Proffesiynol

Nod TAR1 yw datblygu athrawon dan hyfforddiant fel ymarferwyr newydd, sydd, gyda chymorth, yn dechrau defnyddio theori i lywio ymarfer. Mae addysgu wedi'i gefnogi, gyda mwy o annibyniaeth a bwriadoldeb wrth wneud penderfyniadau, ac effaith ddatblygol yn cael ei hadlewyrchu yn eu gallu i droi gwaith cynllunio yn gyfleoedd dysgu ystyrlon.

Ar y cam hwn, **ni ddisgwylir i fyfyrwyr addysgu heb oruchwyliaeth** yn ystod amser addysgu ymarfer dysgu. Yn hytrach, maent yn meithrin dealltwriaeth o systemau ysgolion, disgwyliadau proffesiynol, arferion ystafell ddosbarth, cynnydd yn y cwricwlwm a'r gydberthynas rhwng theori ac ymarfer. Maent yn symud o arsylwi i addysgu â chymorth, gan feithrin hyder ym meysydd cynllunio, rheoli ystafell ddosbarth, gwybodaeth am y pwnc a chyfrifoldebau proffesiynol.

I athrawon dan hyfforddiant, mae hyn yn golygu...

Datblygu cysondeb wrth gynllunio gwersi, addysgu ac asesu

Ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, Meysydd Dysgu a Phrofiad, sgiliau trawsgwricwlaidd a'r pedwar diben fel ysgogwyr dysgu

Rhyngweithio parchus a phroffesiynol â staff y brifysgol, cydweithwyr yr ysgol a disgyblion

Y gallu i fyfyrio ar ymarfer, cysylltu arsylwadau â theori ac ymateb i adborth

Dealltwriaeth o ddyletswyddau proffesiynol gan gynnwys diogelu, iechyd a diogelwch a gofynion hyfforddi statudol

Mae effaith ar ddysgu disgyblion yn golygu...
- Gall disgyblion gyfleu'r hyn y maent yn ei ddysgu a rhoi gynnig ar dasgau ag eglurder cynyddol.
- Mae disgyblion yn galw cynnwys blaenorol i gof ac yn gwneud cysylltiadau â chymorth.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ymgysylltu ac yn cwblhau tasgau'n briodol.
- Mae disgyblion yn rhoi cynnig ar ddysgu newydd â chymorth; mae
- camdybiaethau yn dechrau dod i'r amlwg a gellir mynd i'r afael â nhw.
- Mae'r myfyriwr yn addasu esboniadau neu gyflymder mewn ymateb i ddealltwriaeth disgyblion, gydag arweiniad os oes angen.
- Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel i gymryd rhan; mae ymddygiad yn cefnogi dysgu yn hytrach na'i rwystro.
- Gall y myfyriwr esbonio beth roedd y disgyblion wedi'i ddeall, ble roedden nhw'n cael trafferth, a beth a allai gael ei addasu'r tro nesaf.

TAR 1 – Pwy sy'n Gwneud Beth?
Mentoriaid



Mae mentoriaid yn cefnogi gwaith cynllunio gwersi, addysgu a gwerthuso athrawon dan hyfforddiant; yn darparu sesiynau mentora strwythuredig wythnosol; yn rhoi adborth datblygiadol; yn cefnogi Gweithgareddau Ymarfer Dysgu a myfyrio; ac yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol er mwyn cefnogi cynnydd.

Tasgau allweddol yn TAR1

- Adolygwch waith cynllunio a gwerthusiadau'n rheolaidd drwy ffolder addysgu personol yr athro dan hyfforddiant (a rennir drwy OneDrive)
- Cynlluniwch a hwyluswch sesiynau mentora wythnosol (cyflogedig) neu bob 5 diwrnod (rhan-amser)
- Helpwch i gwblhau Gweithgareddau Ymarfer Dysgu 3, 4 a 5 (mae hyn yn cynnwys astudio gwersi) - gweler y Cynlluniwr
- Cwblhewch Arsylwad ar Wers ffurfiol 1 drwy'r PDP
- Cwblhewch Adolygiad o Ymarfer 1 drwy'r PDP
- Lle y bo'n bosibl, ymunwch â thiwtorial eich athro dan hyfforddiant gyda Thiwtor Cwricwlwm

Mae ffocws mentor hefyd yn cynnwys

- Pennu disgwyliadau ac arferion clir ar ddechrau'r lleoliad gan gynnwys cytuno ar ffyrdd o weithio a strwythur cyfarfodydd â'r Mentora (gweler y pecyn cymorth)
- Cefnogi cynnydd yn erbyn disgwyliadau TAR/SAC drwy ddeialog broffesiynol strwythuredig, gan ddefnyddio'r Fframwaith Cynnydd i'ch helpu
- Helpu'r athro dan hyfforddiant i ddefnyddio'r PDP fel cofnod myfyriol parhaus o ddatblygiad
- Sicrhau bod adborth o adolygiadau, deialog ac arsylwadau rheolaidd yn cael ei droi'n gamau nesaf clir ar gyfer ymarfer, gan wneud defnydd effeithiol o dudalen Traciwr Targedau'r PDP
- Codi unrhyw bryderon ynghylch cynnydd neu lesiant gyda Chydlynydd yr Ysgol neu'r Tiwtor Cwricwlwm lle y bo'n briodol

Awgrymiadau Defnyddiol i Ddechrau Arni

- ❑ **Cofrestrwch** i gael mynediad i PDP eich myfyriwr
- ❑ Gofynnwch i'ch myfyriwr rannu ei **ffolder addysgu personol** a chadwch y ddolen i gael mynediad hawdd iddo
- ❑ Defnyddiwch eich **Cynlluniwr Mentoriaid** i ddod o hyd i ddyddiadau ac adnoddau allweddol,
- ❑ Gwyliwch y **fideo canllaw byr** **ar PDPau** i feithrin hyder i ddefnyddio'r system yn effeithiol
- ❑ Argraffwch gopi o'r **Mat Mentoriaid** fel cymorth cof i lywio gwaith mentora
- ❑ Dewch o hyd i adnoddau parod i'w defnyddio yn y **Pecyn Cymorth i Fentoriaid** i arwain sgyrsiau mentora a chysylltu gweithgarwch astudio unedau ag ymarfer yn yr ystafell ddosbarth
- ❑ Defnyddiwch y **Mat Astudio Gwers** i gefnogi a llywio eich dull o ymdrin â **Gweithgaredd Ymarfer Dysgu 5**

TAR 1 – Pwy sy'n Gwneud Beth?
Cydlynwyr Ysgolion

Mae Cydlynwyr Ysgolion yn goruchwylio dysgu athrawon dan hyfforddiant yn strategol yn yr ysgol. Maent yn sicrhau bod trefniadau mentora effeithiol ar waith, yn cydlynu'r gwaith o drefnu ac amserlennu lleoliadau ac yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer y bartneriaeth. Maent hefyd yn helpu i sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu deall a'u cymhwyso'n gyson ym mhob rhan o'r ysgol.

Tasgau allweddol yn TAR1

- Nodwch a pharatowch Fentoriaid addas, gan sicrhau hyfforddiant a darparu cymorth ac arweinyddiaeth barhaus.
- Nodwch 'Angowr y Gymraeg' i gefnogi a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg ar gyfer athrawon dan hyfforddiant.
- Sicrhewch fod yr holl staff sy'n cefnogi myfyrwyr Y Brifysgol Agored wedi cofrestru drwy'r Ffurflen Bartner ac y gallant gael mynediad i PDPau myfyrwyr
- Cadarnhewch unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag ADY.
- Dyluniwch brofiad dysgu eich myfyrwyr drwy lunio eu hamserlen. Hwyluswch Weithgareddau Ymarfer Dysgu 1 a 2 fel rhan o'r cyfnod sefydlu.
- Trefnwch sesiwn sefydlu ar ddiogelu i fyfyrwyr gyda'ch Swyddog Diogelu penodedig.
- Gwnewch drefniadau mynediad a chaniatâd perthnasol, gan gynnwys ar gyfer defnyddio IRIS Connect.
- Cwblhewch Arsylwad ar Wers ffurfiol 2 drwy'r PDP.

Mae ffocws Cydlynwyr Ysgolion hefyd yn cynnwys

- Pennu a chynnal disgwyliadau cyson ar gyfer profiad athrawon dan hyfforddiant ym mhob rhan o'r ysgol.
- Sicrhau bod gweithgarwch mentora wedi'i strwythuro, ei fod yn gyson a'i fod yn cyd-fynd â disgwyliadau'r rhaglen a'r Fframwaith Cynnydd.
- Helpu mentoriaid i ddefnyddio'r PDP yn effeithiol fel rhan o ddeialog broffesiynol barhaus a thystiolaeth o ddatblygiad.
- Sicrhau bod systemau clir ar waith ar gyfer adolygu gwaith cynllunio, adborth a thrafodaethau ynghylch cynnydd.
- Gweithredu fel y pwynt cyntaf ar gyfer uwchgyfeirio pryderon ynghylch cynnydd, llesiant neu faterion sy'n ymwneud â lleoli, gan gydgysylltu â'r Tiwtor Cwricwlwm lle bo'n briodol.

Awgrymiadau Defnyddiol i Ddechrau Arni

- ❑ **Cofrestrwch** i gael mynediad i PDP eich myfyriwr
- ❑ Defnyddiwch eich **Cynlluniwr Cydlynwyr Ysgolion** i ddod o hyd i ddyddiadau allweddol, awgrymiadau ar gyfer sesiynau, arweiniad ar ddeialog fyfyriol a chymorth ar gyfer Gweithgareddau Ymarfer Dysgu
- ❑ Gwyliwch y **fideo canllaw byr** **ar PDPau** i feithrin hyder i ddefnyddio'r system yn effeithiol
- ❑ Argraffwch gopi o'r **Mat Cydlynwyr Ysgolion** fel cymorth cof i lywio cymorth
- ❑ Ceisiwch gyngor pellach ar **IRIS Connect** a **thempledi** defnyddiol

TAR 2 – Atgyfnerthu
Chwefror– Gorffennaf

Mae TAR2 yn canolbwyntio ar atgyfnerthu a gwella cysondeb ymarfer. Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant symud y tu hwnt i ymarfer â chymorth tuag at addysgu annibynnol mwy parhaus, gyda ffocws cryfach ar yr effaith ar gynnydd disgyblion ac addasu addysgu mewn ymateb i hynny.

Ffocws Elfennau Academaidd:
Atgyfnerthu ymarfer proffesiynol drwy gynllunio, addysgu a gwerthuso dilyniannau dysgu, addysgeg gynhwysol, asesu ar gyfer dysgu a barn broffesiynol

Astudio Unedau:
- 2A – 2E: Chwefror-Mai
- 2F: Mehefin/Gorffennaf

Digwyddiadau Dysgu:
- Sesiynau ar gyfer y modiwl cyfan a sesiynau ysgolion arweiniol, seminarau grŵp tiwtor, tiwtorialau 1:1, cynhadledd ymchwil

Asesu
- Aseiniad Diwedd Modiwl – Rhan 1
- Mae myfyrwyr yn ymgysylltu'n feirniadol ag ymchwil addysgol ac yn dangos sut mae'n llywio eu haddysgu trwy adolygu papur academaidd, cyflwyno ei berthnasedd i ymarfer a dadansoddi'r ffordd y cafodd dilyniant o wersi a addysgwyd yn ystod y lleoliad ei gynllunio, ei addysgu a'i werthuso.



Gwybodaeth a Dealltwriaeth Athrawon dan Hyfforddiant

Ar draws Unedau 2A–2F, mae TAR2 yn canolbwyntio ar atgyfnerthu ymarfer a datblygu hyder, cydlyniant ac effaith myfyrwyr ar draws dilyniannau dysgu.

Mae Unedau 2A a 2B yn dyfnhau dealltwriaeth o ddysgu, datblygiad a llesiant disgyblion, gyda mwy o bwyslais ar gynhwysiant ac ymateb i anghenion amrywiol mewn ymarfer bob dydd. Mae Uned 2C yn datblygu gallu myfyrwyr i gynllunio ac addasu dilyniannau cydlynol sy'n cefnogi cynnydd, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddysgu i lywio'r camau nesaf. Mae addysgeg (2D) yn cryfhau hygrededd athrawon, ymddygiad ar gyfer dysgu a'r defnydd effeithiol o strategaethau pwnc-benodol, gan gynnwys deialog, gwahaniaethu a dulliau digidol. Mae asesu (2E) yn cefnogi'r defnydd o asesu ffurfiannol ac adborth i werthuso dysgu dros amser a llywio penderfyniadau addysgu, tra bod Ymarfer Proffesiynol (2F) yn dwyn y llinynnau hyn ynghyd drwy fyfyrio, proffesiynoldeb, diogelu ac ymgysylltu'n effeithiol â systemau ysgolion.

Er bod cysyniadau craidd yn cael eu rhannu ar draws cyfnodau, mae unedau cynradd yn pwysleisio cydlyniant cwricwlwm cyfannol, asesu integredig a chyfrifoldeb parhaus am un dosbarth, tra bod cynnwys eilaidd yn cymhwyso'r egwyddorion hyn trwy addysgu pwnc-arbenigol, strwythurau adrannol a fframweithiau asesu pwnc-benodol ar draws sawl dosbarth

TAR 2 – Atgyfnerthu
Chwefror – Gorffennaf

Ffocws Ymarfer Dysgu: datblygu addysgu cynyddol annibynnol, cyson ac effeithiol ar draws dilyniannau dysgu

Strwythur Ymarfer Dysgu:

Y llwybr rhan-amser:
- 35 diwrnod yn yr ysgol - dan oruchwyliaeth
- Dwysedd addysgu o 40-60%
- Mentora bob 5 diwrnod

Y Llwybr Cyflogedig:
- 2.5 diwrnod o ddyletswyddau cyflogaeth, 2 ddiwrnod o ymarfer dysgu – dan oruchwyliaeth
- ½ diwrnod o astudio ar-lein wedi'i ddiogelu
- Mentora wythnosol
- Ail brofiad ysgol gorfodol (25 diwrnod)
- Dewisol: O'r Pasg ymlaen, lleihau dyletswyddau cyflogaeth i 2 ddiwrnod a chynyddu ymarfer dysgu i 2.5 diwrnod

Gweithgareddau Allweddol
- Tystiolaeth o'r Gymraeg 1
- Arsylwad ar Wers ffurfiol 3 a 4
- Gweithgareddau Ymarfer Dysgu 6 – 8
- Ymweliad 2 y Tiwtor Ymarfer
- Adroddiad Ymarfer Dysgu
- Ail Brofiad Ysgol (cyflogedig yn unig) – adolygiad o ymarfer
- Cynhadledd Ymchwil y Bartneriaeth

Ymarfer Proffesiynol

Yn ystod TAR2, mae disgwyliadau o ran ymarfer proffesiynol yn symud tuag at fwy o annibyniaeth, cysondeb ac effaith. Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant gymryd cyfrifoldeb cynyddol am gynllunio ac addysgu dilyniannau dysgu, gan ddefnyddio gwaith asesu i lywio addasiadau a dangos cynnydd disgyblion dros amser. Dylai ymarfer symud y tu hwnt i wersi unigol i addysgu cydlynol ac ymatebol ar draws dosbarthiadau, gyda hyder cynyddol wrth reoli ymddygiad, arferion ac amgylcheddau dysgu.


Mae gweithgarwch mentora yn cefnogi dull mwy gwerthusol a myfyriol, gyda myfyrwyr yn gynyddol abl i gyfiawnhau penderfyniadau mewn perthynas â theori, disgwyliadau'r cwricwlwm ac anghenion disgyblion. Yn ystod y cam hwn, mae'r ffocws ar ymgorffori ymarfer effeithiol fel bod yr addysgu yn fwy cyson, yn fwy pwrpasol ac yn amlwg yn cael effaith.

I athrawon dan hyfforddiant, mae hyn yn golygu...

- Cynllunio ac addysgu dilyniannau cydlynol o wersi sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn cefnogi cynnydd amlwg
- Defnyddio asesu ffurfiannol ac adborth i addasu addysgu a dangos cynnydd disgyblion dros amser
- Rheoli ymddygiad, arferion ac amgylcheddau dysgu gyda hyder a chysondeb cynyddol
- Dewis a defnyddio strategaethau addysgegol a phwnc-benodol priodol gydag annibyniaeth gynyddol
- Myfyrio ar benderfyniadau addysgu a'u cyfiawnhau gan ddefnyddio tystiolaeth o ymarfer, theori ac anghenion disgyblion

Mae effaith ar ddysgu disgyblion yn golygu...
- Mae disgyblion yn dangos gallu pendant i alw dysgu blaenorol i gof a gallu cymhwyso annibynnol cynyddol ar draws camau cynnydd
- Mae disgyblion yn ymgysylltu'n gyson ac yn cynnal ffocws, gan gefnogi cynnydd mewn dysgu
- Mae disgyblion yn rhoi dysgu newydd ar waith gyda llai o gymorth, gan fynd i'r afael â chamsyniadau yn unol â disgwyliadau o ran cynnydd.
- Mae disgyblion yn dangos arferion dysgu sefydledig, gydag ymddygiad yn cefnogi annibyniaeth a chynnydd tuag at y pedwar diben yn gynyddol dros amser

TAR 2 – Atgyfnerthu
Pwy sy'n Gwneud Beth? Tasgau Allweddol



Mae myfyrwyr yn trosglwyddo o TAR1 i TAR2 ym mis Chwefror. Mae dwysedd addysgu yn ystod ymarfer dysgu yn cynyddu. Felly, dylai Cydlynwyr Ysgolion ddefnyddio barn broffesiynol i gefnogi parodrwydd ar gyfer mwy o gyfrifoldeb, cynllunio dilyniannau mwy parhaus ac, ar gyfer myfyrwyr cyflogedig, rheoli lleihad yn yr amser astudio.

Disgwylir i fyfyrwyr ddefnyddio ffurflen Cynllunio a Gwerthuso Dilyniannau o Wersi Y Brifysgol Agored ac ymgymryd â myfyrdod wythnosol dyfnach a mwy beirniadol, wedi'i ategu gan fodel myfyriol Y Brifysgol Agored.

Mentor

- Adolygwch waith cynllunio a gwerthusiadau myfyrwyr yn rheolaidd drwy ffolder addysgu OneDrive, gyda ffocws cynyddol ar gynllunio dilyniannau a chynnydd disgyblion dros amser
- Cynlluniwch a hwyluswch sesiynau mentora wythnosol (cyflogedig) neu bob 5 diwrnod (rhan-amser)
- Helpwch i gwblhau Gweithgaredd Ymarfer Dysgu 8
- Cwblhewch Arsylwad ar Wers ffurfiol 3 drwy'r PDP
- Cwblhewch Adran A o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu
- ***Ar gyfer myfyrwyr Ail Brofiad Ysgol yn unig*:** Cwblhewch Adolygiad o Ymarfer 3
- Lle bo modd, rydym yn eich gwahodd i ddod i Gynhadledd Ymchwil y Bartneriaeth
- **Anogwr y Gymraeg:** Darparwch gymorth er mwyn sicrhau bod gan y myfyriwr dystiolaeth ar gyfer cyflwyniad Cymraeg 1

Mae ffocws mentor hefyd yn cynnwys:

- Datblygu gallu athrawon dan hyfforddiant i gynllunio a gwerthuso dilyniannau dysgu cydlynol gan ddefnyddio tystiolaeth asesu i lywio'r camau nesaf
- Cefnogi annibyniaeth gynyddol wrth addysgu, gyda ffocws ar gysondeb, addasu ymarfer a nodi'r effaith ar gynnydd disgyblion dros amser
- Atgyfnerthu deialog broffesiynol sy'n helpu myfyrwyr i fyfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer a'i fireinio yn unol â'r fframwaith cynnydd

Cydlynydd Ysgol

- Goruchwyliwch newidiadau i strwythur lleoliadau a sicrhau bod amserlen TAR2 yn cyd-fynd â gofynion y rhaglen a'r dwysedd addysgu (40–60%).
- Hwyluswch Weithgareddau Ymarfer Dysgu 6 a 7
- Cwblhewch Arsylwad ar Wers ffurfiol 4 drwy'r PDP
- Cwblhewch Adran B o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu
- Cymedrolwch farnau Mentoriaid yn Adran A er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r ysgol, aliniad â thystiolaeth y PDP a disgwyliadau TAR2, gan gynnwys trafodaeth â Thiwtoriaid Ymarfer lle y bo angen.
- ***Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig yn unig*:** gwnewch drefniadau rhyddhau ar gyfer yr ail brofiad ysgol a chytunwch ar faes ffocws allweddol
- ***Ar gyfer myfyrwyr newydd*:** Gweithgareddau Ymarfer Dysgu 1 a 2 a threfnu hyfforddiant diogelu yn yr ysgol

Mae ffocws Cydlynwyr Ysgolion hefyd yn cynnwys:

- Sicrhau bod y lleoliad yn galluogi annibyniaeth gynyddol o ran addysgu a chynllunio dilyniannau parhaus ar draws y cyfnod/pwnc
- Monitro cynnydd myfyrwyr mewn perthynas â disgwyliadau TAR2, gan gynnwys cysondeb addysgu a'r effaith ar ddysgu disgyblion dros amser
- Cefnogi cydlyniant ac ansawdd prosesau asesu a mentora



Hyd yr Ail Brofiad Ysgol
Bloc o 25 diwrnod (5 wythnos)

Ble?
Yn un o ysgolion partner eraill Y Brifysgol Agored (trefnir y lleoliad gan y Bartneriaeth)

Pryd?
Mehefin-Gorffennaf (TAR2)

A ellir ei newid?
Na ellir – mae hwn yn ofyniad statudol ac ni ellir ei ddiwygio na'i hepgor

A all ysgolion drefnu cyfnewid myfyrwyr?
Na allant – ni ellir trefnu lleoliadau fel "cyfnewidiadau" cilyddol oherwydd gofynion logistaidd a gofynion y rhaglen

Beth am gostau a theithio?
Yr ysgol gyflogi fydd yn talu costau rhyddhau. Bwriedir i'r grant cyflogedig helpu gyda'r costau hyn. Efallai y bydd gofyn i athrawon dan hyfforddiant deithio hyd at 90 munud yn unol â'r polisi.


A oes strwythur?
Oes – mae'r profiad yn dilyn strwythur diffiniedig er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni disgwyliadau'r rhaglen ac yn cefnogi datblygiad unigol.

Mae'r ail brofiad ysgol yn ymestyn datblygiad athrawon dan hyfforddiant drwy gymhwyso ac addasu eu hymarfer mewn cyd-destun cyferbyniol. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu ymarferwyr hyblyg a myfyriol a all drosglwyddo dysgu ar draws lleoliadau wrth iddynt symud ymlaen tuag at fwy o annibyniaeth ac ymreolaeth.

Gan adeiladu ar y cam ymgyfarwyddo, mae'n helpu i atgyfnerthu sgiliau addysgu drwy amlygiad i wahanol ddysgwyr, lleoliadau a dulliau. Mae'r profiad hwn yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i brofi a mireinio eu hymarfer, dyfnhau eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm ac addysgeg a gwella eu gallu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth ac yn sensitif i'r cyd-destun.

Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae'n helpu athrawon dan hyfforddiant i dyfu'n gynt drwy brofiad mewn ysgol wahanol
- Mae'n dod â syniadau a dulliau defnyddiol yn ôl i'ch ysgol eich hun
- Mae'n meithrin annibyniaeth a hyder cyn y lleoliad terfynol a'r SAC
- Mae'n cefnogi datblygiad cryf a chyson athrawon ym mhob rhan o'r bartneriaeth



Ffigur 13: Strwythur yr ail brofiad ysgol

TAR 3 – Ymreolaeth
Medi – Mehefin (Blwyddyn Astudio 2)

TAR3 yw cam olaf y rhaglen, sy'n helpu athrawon dan hyfforddiant i symud tuag at annibyniaeth a sicrhau eu bod yn barod ar gyfer SAC. Gan adeiladu ar brofiad cynharach, maent yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am gynllunio, addysgu ac asesu, gan gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyson ar draws addysgu parhaus. Hefyd, yn ystod y cam hwn, mae athrawon dan hyfforddiant yn newid i astudio ar lefel Meistr, sy'n galluogi ymgysylltu dyfnach ag ymchwil, polisi ac ymarfer proffesiynol.

Ffocws Elfennau Academaidd:
Ymholiad ar lefel meistr, ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, barn broffesiynol ac ymgysylltu'n feirniadol ag ymchwil, polisi ac addysgeg gynhwysol.

Astudio Unedau:
- Dechrau Arni
- 3A – 3F

Digwyddiadau Dysgu:
- Sesiynau ar gyfer y modiwl cyfan a sesiynau ysgolion arweiniol, seminarau grŵp tiwtor, tiwtorialau 1:1, cynhadledd ymchwil

Asesu
- Asesiad a Gaiff ei Farcio gan Diwtor 1 – 2500 o eiriau Cynnig ar gyfer ymholiad proffesiynol ac adolygiad o lenyddiaeth
- Asesiad Diwedd Modiwl – Rhan 1
- Dwy dasg yn yr ysgol, sef: ymholiad proffesiynol i'ch addysgu eich hun ac astudiaeth achos ymarfer gynhwysol o ddau ddisgybl. Mae'r ddau yn gofyn am fyfyrio'n feirniadol, ymgysylltu ag ymchwil, a thystiolaeth wedi'i hanonymeiddio o ymarfer.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth Athrawon dan Hyfforddiant

Yn ystod y cam hwn, mae athrawon dan hyfforddiant yn cwblhau modiwl lefel Meistr â 60 credyd sy'n para blwyddyn, gan atgyfnerthu prosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, barn broffesiynol a'r gallu i werthuso a gwella ymarfer. Ochr yn ochr â phrofiad sylweddol yn yr ysgol, mae TAR3 yn datblygu ymarferwyr hyderus a myfyriol a all wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth, addasu i'r cyd-destun, a dangos effaith gadarn ar gynnydd dysgwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer cymhwyso.

Mae Unedau 3A–3F yn datblygu ymarfer proffesiynol ar draws y cwricwlwm, addysgeg, gwaith asesu a dysgu proffesiynol.
- Mae **3A–3B** yn canolbwyntio ar sylfeini damcaniaethol ac addysgegol, gyda phwyslais ar greadigrwydd, galluogedd disgyblion, metawybyddiaeth a meddwl yn feirniadol am y cwricwlwm.
- Mae **3C** yn meithrin y gallu i gynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd gydlynol dros amser, gan gynnwys cynnydd a chydweithio â chydweithwyr.
- Mae **3D** (Addysgeg) yn canolbwyntio ar ymarfer cynhwysol a hyderus yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio strategaethau pwnc-benodol effeithiol, deialog, dysgu annibynnol ac adnoddau digidol.
- Mae **3E** (Asesu) yn dyfnhau dealltwriaeth o asesu ar gyfer dysgu, gan gynnwys adborth, cynnwys disgyblion, tegwch ac ymgysylltu â phrosesau crynodol.
- Mae **3F** (Ymarfer Proffesiynol) yn canolbwyntio ar lesiant, hunaniaeth broffesiynol, cydweithio, ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil a dysgu proffesiynol parhaus.

Er bod y disgwyliadau craidd yn cael eu rhannu, mae TAR3 yn canolbwyntio ar y ffordd mae athrawon dan hyfforddiant yn cymhwyso barn broffesiynol ac ymreolaeth gynyddol yng nghyd-destun eu cyfnod. Fel arfer, mae athrawon cynradd dan hyfforddiant yn dangos hyn drwy arweinyddiaeth gwricwlaidd integredig a dealltwriaeth barhaus o gynnydd dysgwyr ar draws meysydd dysgu, tra bod athrawon uwchradd dan hyfforddiant yn ei ddangos drwy arbenigedd pwnc sicr, dilyniannu cwricwlwm, ac aliniad adrannol o fewn cymwysterau a fframweithiau asesu.

Yn y naill gam a'r llall, mae'r pwyslais ar ymarfer cyson ac annibynnol a'r gallu i wneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth sy'n cael effaith barhaus ar gynnydd dysgwyr.

Ffocws Ymarfer Dysgu:
Cynnydd tuag at ymreolaeth, yn barod ar gyfer SAC

Strwythur Ymarfer Dysgu:
Y llwybr rhan-amser:
- 60 diwrnod yn yr ysgol - dan oruchwyliaeth
- Dwysedd addysgu o 70-75%
- Mentora bob 5 diwrnod

Y Llwybr Cyflogedig:
- 3.5 diwrnod o ddyletswyddau athro heb gymhwyso (70% o addysgu annibynnol a chynllunio, paratoi ac asesu)
- ½ diwrnod o astudio ar-lein wedi'i ddiogelu
- Mentora wythnosol, Gweithgareddau Ymarfer Dysgu, Ymholiad Proffesiynol

Gweithgareddau Allweddol
- Gweithgareddau Ymarfer Dysgu 1 – 7
- Ymholiad proffesiynol
- Tystiolaeth o'r Gymraeg
- Arsylwadau ar Wers 1-4
- Adolygiad o Ymarfer 1 a 2
- Adroddiad Ymarfer Dysgu
- Cyflwyno'r PDP (Asesiad Diwedd Modiwl Rhan 2)
- Cynhadledd Ymchwil

Ymarfer Proffesiynol
Yn TAR3, mae ymarfer dysgu yn canolbwyntio ar baratoi athrawon dan hyfforddiant ar gyfer addysgu annibynnol a chwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. Ar y cam hwn, disgwylir iddynt ddangos barn broffesiynol, cysondeb ac atebolrwydd cynyddol, gan ddwyn eu dysgu ynghyd ar draws y cwricwlwm, addysgeg, asesu ac ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil. Y pwyslais yw symud o ymarfer â chymorth tuag at addysgu hyderus ac ymreolaethol sy'n cael effaith barhaus ar gynnydd dysgwyr, yn unol â'r Fframwaith Cynnydd. Mae mentora yn TAR3 yn canolbwyntio ar gefnogi ymarfer cynyddol annibynnol drwy ddeialog broffesiynol fyfyriol.

Mae myfyrwyr rhan-amser yn cynyddu dwysedd eu haddysgu i 75% ac yn parhau i gynllunio a gwerthuso gwersi gan ddefnyddio Ffurflen Cynllunio a Gwerthuso Dilyniannau o Wersi Y Brifysgol Agored.

Yn achos myfyrwyr cyflogedig, mae dwysedd yn cynyddu i 70% ar draws yr amserlen wythnosol. Dylid defnyddio'r ffurflen gynllunio ar gyfer arsylwadau ffurfiol, a gall y myfyriwr fabwysiadu fformat cynllunio'r ysgol ar gyfer athrawon ochr yn ochr â myfyrdodau wythnosol.

I athrawon dan hyfforddiant, mae hyn yn golygu...

Cynllunio ac addysgu dilyniannau o wersi ag annibyniaeth gynyddol a chynnydd amlwg

Defnyddio gwaith asesu i lywio addysgu, gan gynnwys adborth, mewnbwn disgyblion ac addasiadau

Dangos rheolaeth gyson yn yr ystafell ddosbarth ac ymarfer cynhwysol ar gyfer pob dysgwr

Ymgysylltu ag ymchwil, polisi a systemau ysgolion i lywio myfyrio a phrosesau gwneud penderfyniadau


Cymryd cyfrifoldeb proffesiynol llawn am eich ymddygiad, eich cyfathrebu a'ch cydweithio eich hun ym mhob rhan o'r ysgol



Mae effaith ar ddysgu disgyblion yn golygu...
- Gall disgyblion wneud cynnydd cliriach a mwy parhaus ar draws dilyniannau o wersi
- Mae disgyblion yn dangos mwy o annibyniaeth yn eu dysgu gyda llai o ddibyniaeth ar gymorth oedolion
- Mae disgyblion yn chwarae rhan fwy gweithredol mewn gwersi, gan gyfrannu at drafodaeth ac ymateb i adborth
- Mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith sy'n dangos dyfnder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol dros amser

Pwysig! Er y dylai ymarfer fod yn fwyfwy diogel ac effeithiol erbyn TAR3, mae hyn yn parhau i fod o fewn **addysg gychwynnol i athrawon**. Mae twf proffesiynol yn parhau i mewn i'r cyfnod sefydlu a thu hwnt.

TAR 3 – Ymreolaeth
Pwy sy'n Gwneud Beth? Tasgau Allweddol



TAR3 yw cam olaf y rhaglen, y bwriedir iddo helpu athrawon dan hyfforddiant i symud tuag at annibyniaeth, sicrhau eu bod yn barod ar gyfer SAC a chwblhau eu hastudiaethau ar lefel Meistr. Mae'r strwythur yn adlewyrchu cyfrifoldeb cynyddol yn yr ysgol ochr yn ochr ag ymgysylltu parhaus ag astudiaethau academaidd ar-lein. Yn ystod y cam hwn, disgwylir i athrawon dan hyfforddiant ddangos ymarfer cyson ac annibynnol, gan gymhwyso dysgu ar draws y cwricwlwm, addysgeg, gwaith asesu ac ymarfer proffesiynol gyda hyder ac effaith gynyddol.

Mentor

- Adolygwch waith cynllunio a gwerthusiadau myfyrwyr yn rheolaidd drwy ffolder addysgu OneDrive, gyda ffocws cynyddol ar gynllunio dilyniannau a chynnydd disgyblion dros amser
- Cynlluniwch a hwyluswch sesiynau mentora wythnosol (cyflogedig) neu bob 5 diwrnod (rhan-amser)
- Helpwch i gwblhau Gweithgareddau Ymarfer Dysgu 1, 5, 6, 7, 8
- Cwblhewch Arsylwi ar Wers ffurfiol 1 a 3 drwy'r PDP
- Cwblhewch Adolygiad o Ymarfer 1
- Cwblhewch Adran A o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu
- Anogwr y Gymraeg: Darparwch gymorth er mwyn sicrhau bod gan y myfyriwr dystiolaeth ar gyfer cyflwyniad Cymraeg

Mae ffocws mentor hefyd yn cynnwys:

- Helpu athrawon dan hyfforddiant i symud o ymarfer â chymorth tuag at annibyniaeth a hyder proffesiynol cynyddol
- Datblygu barn broffesiynol drwy ddeialog strwythuredig, gan gysylltu theori, ymarfer a deilliannau disgyblion
- Sicrhau bod adborth yn arwain at gamau nesaf clir y gellir eu rhoi ar waith sy'n cyd-fynd â Fframwaith Cynnydd TAR3 (ymarfer annibynnol a chyson sy'n cael effaith)

AWGRYM DEFNYDDIOL! Peidiwch ag anghofio defnyddio'r Mat Mentoriaid fel canllaw cyflym i'ch Mentora.

Cydlynydd Ysgol

- Goruchwyliwch newidiadau i strwythur lleoliadau a sicrhau bod amserlen TAR3 yn cyd-fynd â gofynion y rhaglen a'r dwysedd addysgu (70%).
- Hwyluswch Weithgareddau Ymarfer Dysgu 2, 3, 4 a 6
- Cwblhewch Arsylwadau ar Wers ffurfiol 2 a 4 drwy'r PDP
- Cwblhewch Adran B o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu
- Cymedrolwch farnau Mentoriaid yn Adran A er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r ysgol, aliniad â thystiolaeth y PDP a disgwyliadau TAR3, gan gynnwys trafodaeth â Thiwtoriaid Ymarfer lle y bo angen.
- ***Ar gyfer myfyrwyr newydd:*** Gweithgareddau Ymarfer Dysgu 1 a 2 a threfnu hyfforddiant diogelu yn yr ysgol

Mae ffocws Cydlynwyr Ysgolion hefyd yn cynnwys:

- Sicrhau bod y lleoliad cyffredinol yn cefnogi cynnydd tuag at ymarfer addysgu annibynnol, parhaus a myfyriol
- Cefnogi cydlyniant rhwng mentoriaid er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Cynnydd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyson
- Gweithredu fel cyswllt allweddol rhwng systemau ysgolion a disgwyliadau prifysgolion er mwyn helpu i sicrhau profiadau ymarfer dysgu o ansawdd uchel.


AWGRYM DEFNYDDIOL! Peidiwch ag anghofio defnyddio'r Mat Cydlynwyr Ysgolion fel canllaw cyflym i'ch gwaith cydlynu.

Mae'r Fframwaith Asesu Ymarfer Dysgu wedi'i ddiweddaru fel ein Fframwaith Cynnydd newydd. Bwriedir iddo ddarparu canllaw a rennir ar sut mae ymarfer proffesiynol yn datblygu tuag at Statws Athro Cymwysedig (SAC) ar draws TAR1, TAR2 a TAR3. Mae'n helpu athrawon dan hyfforddiant, Mentoriaid, Cydlynwyr Ysgolion, Tiwtoriaid Ymarfer a Chwricwlwm i feithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a disgwyliadau ym mhob cam, ac integreiddio ymarfer yn yr ysgol, dysgu'r rhaglen a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer astudio ar-lein a chyfunol llwyddiannus wrth ddilyn y llwybr cyflogedig neu'r llwybr rhan-amser yn well.

Er mwyn ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC), rhaid i ymarfer proffesiynol athrawon dan hyfforddiant fod yn **sicr, yn gyson ac yn amlwg yn effeithiol**. Dylai ymarfer fod yn seiliedig ar wybodaeth broffesiynol, sy'n cael ei chymhwyso mewn ffordd ddibynadwy ar draws cyd-destunau, a sicrhau manteision clir ar gyfer ymgysylltu, cynnydd a deilliannau dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys:


- cynllunio ac addysgu'n effeithiol
- defnyddio gwaith asesu i gefnogi dysgu
- cydweithio â chydweithwyr a dysgwyr
- cyfathrebu mewn ffordd broffesiynol
- cyfrannu at fywyd yr ysgol
- ymarfer mewn ffordd foesegol a chynhwysol
- ymgymryd â dysgu proffesiynol parhaus

Mae athrawon dan hyfforddiant hefyd yn cwblhau'r TAR, sy'n gymhwyster achrededig. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi gwaith asesu cyfannol, gan ymdrin â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu a datblygiad academaidd mewn cyd-destun ôl-raddedig. Er mwyn gwneud hyn, ystyrir cynnydd myfyrwyr mewn tri maes cydgysylltiedig:



Ffigur 14: Tri maes ymarfer cydgysylltiedig

Caiff cynnydd athrawon dan hyfforddiant ei dracio a'i gefnogi drwy gydol y rhaglen gan ddefnyddio dulliau ffurfiannol (parhaus) a chrynodol (ffurfiol) y dylai'r fframwaith eu hategu. Mae pob modiwl yn dilyn yr un patrwm.



***Asesu ffurfiannol – a ddefnyddir i gefnogi dysgu a myfyrio*:**

Cyfarfodydd â mentor – sesiwn strwythuredig, wedi'i hamserlennu i roi arweiniad, adborth, a chefnogi myfyrio ar addysgu.

Adolygiadau o Ymarfer – adroddiad ysgrifenedig byr a gwblheir unwaith gan y Mentor ac ar wahân gan y Tiwtor Ymarfer ar ôl yr ymweliad cyntaf. Cwblheir yr adolygiad drwy'r PDP ac mae'n cael ei lywio gan arsylwadau ar wersi, deialog broffesiynol ac ymgysylltu rheolaidd â gwaith cynllunio a gwerthuso myfyrwyr.

Adolygiadau o Gynnydd – a gynhelir bob tymor gan y Tiwtor Cwricwlwm gyda thîm y modiwl i lywio'r hyfforddiant a'r tiwtorialau unigol.

***Asesu crynodol – sy'n darparu cofnod ffurfiol o gyflawniad ac sy'n sail i'r Asesiad Diwedd Modiwl**)*

Tasgau academaidd – aseiniadau sy'n datblygu ymarfer myfyriol sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae'r rhain yn cael eu harwain gan Diwtor Cwricwlwm y brifysgol ond gall addysgwyr yn yr ysgol helpu myfyrwyr i gasglu tystiolaeth yn yr ysgol a chysylltu theori ag ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

Adroddiad Ymarfer Dysgu – barnau proffesiynol a lunnir gan Fentoriaid, Cydlynwyr Ysgolion a Thiwtoriaid Ymarfer, yn seiliedig ar addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgarwch ymgysylltu â chydweithwyr a dysgwyr, myfyrio a'r effaith ar ddysgu disgyblion. Adroddir ar hyn yn ffurfiol ar ddiwedd Adroddiad Ymarfer Dysgu'r modiwl.

Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) – cofnod canolog ar-lein drwy blatfform PebblePad Cyngor y Gweithlu Addysg lle mae myfyrwyr yn curadu tystiolaeth o'u haddysgu, gan gynnwys cynlluniau gwersi, arsylwadau, gwerthusiadau, a myfyrdodau sy'n dangos eu hymarfer proffesiynol. Ar ddiwedd TAR3, rhaid i hyn ddangos ymarfer diogel, yn gyson ac yn effeithiol yn unol â holl feysydd y Safonau Proffesiynol.



Ar ddiwedd pob modiwl, byddwch yn cwblhau **Adroddiad Ymarfer Dysgu** sy'n crynhoi cynnydd yr athro dan hyfforddiant. Bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu at **Ran B yr Asesiad Diwedd Modiwl**.



Mae'r **Mentor, Cydlynydd yr Ysgol a'r Tiwtor Ymarfer**, oll yn cyfrannu at farn gyfannol, wedi'i chymedroli.

Adran A – y Mentor
Mae'r Mentor yn rhoi adborth ar ffurf naratif ar dri maes allweddol:
- Cwricwlwm, Addysgu ac Asesu
- Cydberthnasau a Chyfrifoldebau Proffesiynol
- Ymarfer Myfyriol wedi'i Lywio gan Ymchwil

Mae'r adborth hwn yn cael ei arwain gan awgrymiadau sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Cynnydd a dylai adlewyrchu cam datblygu'r athro dan hyfforddiant.

Adran B – Cydlynydd yr Ysgol
Mae Cydlynydd yr Ysgol yn cadarnhau:
- Bod gofynion statudol (e.e. presenoldeb a hyfforddiant gorfodol) wedi'u bodloni.
- Cymedroli er mwyn sicrhau cysondeb rhwng myfyrwyr yn yr ysgol ac yn AGA.

Mae'r gwaith cymedroli hwn yn cael ei lywio gan broses arsylwi Cydlynydd yr Ysgol ei hun ar yr athro dan hyfforddiant, sydd hefyd yn cael ei hadolygu'n anghydamserol gan y Tiwtor Ymarfer drwy IRIS Connect.

Rhan C – y Tiwtor Ymarfer
Mae'r Tiwtor Ymarfer yn darparu:
- Adborth ar yr un tri maes
- Asesiad annibynnol o gynnydd yr athro dan hyfforddiant

Os bydd gwahaniaethau rhwng barn yn yr ysgol a barn y Tiwtor Ymarfer, dylai Cydlynydd yr Ysgol a'r Tiwtor Ymarfer gydweithio i gyrraedd safbwynt wedi'i gymedroli. Pan na fydd hyn yn bosibl, gall y Tiwtor Ymarfer gofnodi ei farn broffesiynol ei hun a bydd Tiwtor Cwricwlwm yn cynnal 'trydedd broses farcio'.

Er mwyn pasio Rhan B, rhaid i'r myfyriwr:
- Fod **Ar y Trywydd Iawn** o ran ei ymarfer yn yr ystafell ddosbarth (yn seiliedig ar y farn yn eich PDP)
- Cynnal **PDP (e-bortffolio) cryf** gyda thystiolaeth glir a myfyrio beirniadol

Mae eich adroddiad yn canolbwyntio ar ansawdd ac effaith ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Dengys y PDP pa mor dda y mae'r myfyriwr yn myfyrio ar ei ddatblygiad ac yn ei ddangos.

Noder:
⚠️ Ni all myfyriwr basio Rhan B heb fod Ar y Trywydd Iawn o ran ei ymarfer.
⚠️ Gall PDP gwan neu anghyflawn hefyd atal myfyriwr rhag pasio.

Mynediad i PDP

Er mwyn cwblhau'r adroddiad, bydd angen i chi gael mynediad at ffeil PDP eich myfyriwr. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i drefnu eich mynediad.

Rhaid i PDP pob athro dan hyfforddiant fod yn gysylltiedig â'r Mentor, y Cydlynydd Ysgol a'r Tiwtor Ymarfer a neilltuwyd iddo. Gwneir hyn bob blwyddyn.

Gweithredwch!

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi'ch cofrestru ar gyfer Mynediad at PDP.
- Gwyliwch ein canllaw fideo cyflym i ddechrau arni.
- Mewngofnodwch yma: E-wasanaethau Cyngor y Gweithlu Addysg

Defnyddio'r fframwaith i lywio barn:
Gofynnir i chi wneud asesiad proffesiynol o gynnydd yr athro dan hyfforddiant tuag at SAC mewn perthynas â phob cam o'r rhaglen. Mae'r Adroddiad Ymarfer Dysgu yn gweithredu fel pwynt asesu crynodol ar ddiwedd y modiwl.

Cam	Disgrifydd Cynnydd	Barn ar Ymarfer
TAR1 (Bl.1) Ymgyfarwyddo	Yn dod i'r amlwg	Ar y Trywydd Iawn / Ddim ar y Trywydd Iawn Fe'i cofnodir gan ddefnyddio'r ffurflen Adolygu Ymarfer (mae hyn yn ffurfiannol yn unig ac mae'n ei gwneud yn bosibl i bryderon neu'r angen am ymyrraeth bellach i gefnogi cynnydd gael eu nodi'n gynnar).
TAR2 (Bl.1) Atgyfnerthu	Yn datblygu	• Heb Fod ar y Trywydd Iawn* • Ar y Trywydd Iawn • Ar y Trywydd Iawn gyda Chryfderau • Yn Rhagori ar Ddisgwyliadau Crynodol – fe'i cofnodir drwy'r Adroddiad Dysgu Ymarfer ac mae'n llywio'r asesiad diwedd modiwl. *__Ni__ all athrawon dan hyfforddiant nad ydynt ar y trywydd iawn yn TAR2 symud ymlaen i TAR3.
TAR3 (Bl.2) Ymreolaeth	Sicr	• Heb Fod ar y Trywydd Iawn** • Ar y Trywydd Iawn • Ar y Trywydd Iawn gyda Chryfderau • Yn Rhagori ar Ddisgwyliadau Crynodol – fe'i cofnodir drwy'r Adroddiad Dysgu Ymarfer ac mae'n llywio'r asesiad diwedd modiwl. **__Ni__ all athrawon dan hyfforddiant nad ydynt ar y trywydd iawn yn TAR3 symud ymlaen i SAC.

Cyn cwblhau'r adroddiad:
- Adolygwch **ymarfer arsylladwy**'r athro dan hyfforddiant. Gallwch ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau i wneud hyn. Er enghraifft, adborth ar arsylwadau anffurfiol a ffurfiol ar wersi, cynllunio a gwerthuso gwersi, cyfarfodydd strwythuredig â'ch Mentor. Mae adolygu PDP yr athro dan hyfforddiant a/neu ei Ffolder Addysgu Personol (sef ei ffeil o ddydd i ddydd) fel rhan o waith mentora yn helpu i sicrhau darlun cyfannol o gynnydd dros amser.
- Ystyriwch gynnydd **ym mhob maes perthnasol**: cynllunio, addysgu, asesu, cydberthnasau proffesiynol ac ymarfer myfyriol.

Mae pedwar categori i ddisgrifio cynnydd o ran ymarfer dysgu.

Heb Fod ar y Trywydd Iawn*	Nid yw'r athro dan hyfforddiant yn dangos deilliannau'r fframwaith ar gyfer ei gam yn gyson. Efallai nad yw ymarfer wedi'i ddatblygu'n ddigonol neu nad oes digon o dystiolaeth ar ei gyfer, gyda meysydd yn dangos fawr ddim effaith ar gynnydd dysgwyr. Ar gyfer TAR2 neu TAR3 – **Nid** ydynt yn cael eu hargymell ar gyfer parhau ar y cam hwn. **Yn TAR1, mae hyn yn ddangosydd ffurfiannol o'r angen posibl i ymyrryd yn gynnar. Yn TAR2 a TAR3, mae'n grynodol ac yn dangos nad yw meini prawf cynnydd wedi'u bodloni.*
Ar y Trywydd Iawn	Mae'r athro dan hyfforddiant yn datblygu ymarfer sicr ar gyfer y rhan fwyaf o ddeilliannau cam-benodol, gyda rhai meysydd yn gofyn am gymorth wedi'i dargedu.
Ar y Trywydd Iawn gyda Chryfderau	Mae'r athro dan hyfforddiant yn dangos y rhan fwyaf o ddeilliannau cam-benodol gyda sawl cryfder yn dod i'r amlwg a chysondeb cynyddol mewn ymarfer.
Yn Rhagori ar Ddisgwyliadau	Mae'r athro dan hyfforddiant yn dangos yn gyson y rhan fwyaf o'r deilliannau ar gyfer ei gam presennol neu bob un ohonynt, gydag effaith amlwg ar ddysgwyr.

17. Cael Help a Chymorth
Dolenni Cyflym i Adnoddau ac Offer Allweddol

Cofrestrwch
Rhowch wybod i ni beth yw eich rôl a chael mynediad i systemau
Gofyniad blynyddol ar gyfer staff sy'n dychwelyd a staff newydd

Ymunwch nawr

Sesiwn galw heibio
Holi ac Ateb
Bob dydd Llun o 3.30y.p.

Cysylltwch â ni

Cysylltwch â ni drwy e-bost

Hyfforddiant, Canllawiau ac Adnoddau

Dewch o hyd

Canllawiau ac adnoddau

Hyfforddiant Gorfodol

Diweddarwch eich cofnodion gyda ni

Adnoddau ar gyfer Asesu Athrawon dan Hyfforddiant

Defnyddio'r PDP
Canllaw fideo

Mewngofnodi
I gael mynediad i PDP eich athro dan hyfforddiant

IRIS Connect
Gweler dogfennau i gefnogi eich rôl

Dysgu a Datblygu mewn Partneriaeth

Dysgu

Ewch â'ch sgiliau mentora i'r lefel nesaf

Ymchwil

Datblygwch ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth

Ewch Ymhellach

Cyrsiau Dysgu



Mae Addysg Gychwynnol i Athrawon o ansawdd uchel yn dibynnu ar bartneriaethau cryf rhwng ysgolion a'r brifysgol — ac mae eich cyfraniad yn ganolog i hyn.

Drwy gydweithio, rydym yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r farn broffesiynol sydd eu hangen i ddod yn ymarferwyr hyderus a myfyriol a all wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddysgwyr ledled Cymru.

Datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag AGA
Mae Addysg Gychwynnol i Athrawon yn fwyaf effeithiol pan fo'n ymdrech ysgol gyfan a rennir. Pan fo datblygu athrawon dan hyfforddiant yn rhan o ddiwylliant dysgu proffesiynol yr ysgol, mae'n gwella deilliannau i ddisgyblion, staff a'r bartneriaeth ehangach. Mae dull ysgol gyfan yn sicrhau bod cyfrifoldeb dros gefnogi athrawon dan hyfforddiant wedi'i wreiddio ar draws timau, arferion a deialog broffesiynol.

Buddiol i'r ddwy ochr
Gall cefnogi athrawon dan hyfforddiant fod yn gyfle dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff, gan gefnogi hyfforddi, myfyrio a datblygu arweinyddiaeth. Mae hefyd yn annog cydweithio a rhannu ymarfer ym mhob rhan o'r ysgol.

Pam mae hyn yn bwysig?
- ✓ Mae'n gwella ansawdd a chysondeb gwaith mentora a chymorth
- ✓ Mae'n helpu i wella deilliannau i athrawon dan hyfforddiant a disgyblion
- ✓ Mae'n datblygu dysgu proffesiynol mewn ysgolion a rhyngddynt
- ✓ Mae'n cyfrannu at weithlu athrawon cryf a chynaliadwy ledled Cymru

Mae'r llawlyfr hwn yn rhan o gyfres ehangach o gymorth y bwriedir iddo wneud eich rôl yn gliriach, yn haws i'w rheoli ac yn fwy cysylltiedig. Rydym yn eich annog i fynd i sesiynau briffio, ymuno â sesiynau galw heibio rheolaidd, ac ymgysylltu â'r gymuned broffesiynol ehangach sy'n cefnogi athrawon dan hyfforddiant.

Diolch am eich rôl wrth gefnogi athrawon dan hyfforddiant. Gyda'n gilydd, rydym yn creu gweithlu addysgu'r dyfodol.


The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru